



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithredu Atodlen 3 Deddf Llifogydd
a Rheoli Dwr 2010 ar gyfer gorfodi
systemau draenio cynaliadwy ar
ddatblygiadau newydd

Cwestiynau Cyffredin

Canllawiau ar gyfer awdurdodau
lleol a datblygwyr

Cwestiynau Cyffredin

Geirfa

Defnyddir nifer o dermau a diffiniadau drwy gydol y ddogfen hon:

Y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy

Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy yn golygu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (gweler adran 2 o'r Cwestiynau Cyffredin hyn).

Y rheoliadau ar gyfer draenio cynaliadwy

Mae'r rheoliadau ar gyfer draenio cynaliadwy yn golygu'r fframwaith rheoleiddio er mwyn ennill cymeradwyaeth gan y corff cymeradwyo SuDS (SAB), mabwysiadu a gorfodi SuDS ar ddatblygiadau newydd ac ar gyfer apeliadau yn erbyn rhai o benderfyniadau'r SAB (gweler adran 2 o'r Cwestiynau Cyffredin hyn).

Safonau SuDS Statudol

Mae Safonau SuDS yn golygu'r safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy - ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb (2018). Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru¹.

Canllawiau Statudol

Mae canllawiau statudol yn golygu Canllawiau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) i awdurdodau lleol. Mae'r canllawiau statudol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru².

System Ddraenio

Mae system ddraenio yn golygu strwythur a ddyluniwyd i dderbyn dŵr glaw. Mae'n cynnwys unrhyw ran o strwythur presennol neu arfaethedig, ac unrhyw nodwedd neu agwedd ar ddyluniad a fwriedir i dderbyn neu hwyluso derbyn dŵr glaw.

Nid yw'n cynnwys carthffos gyhoeddus na chwrs dŵr naturiol fel afon neu nant.

Draenio Cynaliadwy

Mae draenio cynaliadwy, a elwir hefyd yn SuDS, yn golygu 'Draenio'n gynaliadwy' i reoli dŵr glaw (gan gynnwys eira a mathau eraill o ddyodiad) gan anelu i: lleihau'r difrod yn sgil llifogydd, gwella ansawdd y dŵr, gwarchod a gwella'r amgylchedd, amddiffyn iechyd a diogelwch a sicrhau sefydlogrwydd a gwytnwch systemau draenio.

Mae dyletswydd mabwysiadu'r SAB yn berthnasol i '**systemau draenio cynaliadwy**' sydd, i'r diben hwn, yn golygu'r rhannau hynny o system ddraenio nad yw ymgymerwr carthffosiaeth yn gyfrifol amdanynt o dan gytundeb adran 104 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

¹Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS ar gael yn:

<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?skip=1&lang=cy>

²Mae'r canllawiau statudol ar gael yn:

<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?skip=1&lang=cy>

Yr SAB

Y **Corff Cymeradwyo SuDS (SAB)** yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am werthuso a chymeradwyo ceisiadau draenio ar gyfer datblygiadau newydd ac mewn rhai amgylchiadau ar gyfer mabwysiadu a chynnal a chadw cynlluniau SuDS.

Cais

Y cais am gymeradwyaeth ar gyfer SuDS a gyflwynir gan y datblygwr i'r SAB.

Cymeradwyo

Cymeradwyaeth ar gyfer y system ddraenio a roddir gan yr SAB ar ôl penderfynu cefnogi'r cais.

Datblygwr

Y sawl sydd wedi ymgeisio am gymeradwyaeth gan yr SAB ar gyfer y system ddraenio arfaethedig.

Ymgynghorai statudol

Cyn dod i benderfyniad ynghylch cymeradwyo cais SuDS, mae'n rhaid i'r SAB ymgynghori ag amrywiaeth o ymgynghorai statudol. Dyma'r ymgynghoreion statudol: yr ymgymerwr carthffosiaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru (yn ogystal â'r Bwrdd Draenio Mewnol), yr Awdurdod Prifffyrdd Lleol perthnasol, a'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd.

ALI

Mae'r **Awdurdod Lleol** yn gyfrifol am swyddogaeth yr SAB ynghyd â swyddogaethau eraill statudol.

ALILIA

Yr **Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol** yw'r awdurdod lleol a chanddo'r rôl arweiniol dros reoli'r risg o lifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin mewn ardal neilltuol.

ACLI

Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau cynllunio tref statudol mewn ardal neilltuol.

Mynegai

		Tudalen
Adran 1: Y Cyd-destun		7
1.1	Beth yw statws y ddogfen hon?	7
1.2	Pam bod angen SuDS gorfodol mewn datblygiadau newydd?	7
1.3	Beth yw'r SAB?	8
1.4	Beth yw cais draenio SuDS?	8
1.5	Pryd y bydd defnyddio SuDS a derbyn cymeradwyaeth ar eu cyfer gan yr SAB yn dod yn orfodol?	9
Adran 2: Gweithredu		10
2.1	Beth yw'r prif ddarpariaethau statudol ar gyfer draenio cynaliadwy?	10
2.2	Beth yw'r rheoliadau ar gyfer cymeradwyo, mabwysiadu, gorfodi ac apelio yn erbyn penderfyniadau SuDS?	10
2.3	Beth yw'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS?	11
2.4	Pa ganllawiau statudol sydd ar gael i awdurdodau lleol?	11
2.5	Beth yw'r trefniadau dros dro ar gyfer datblygiadau sydd eisoes ar y gweill?	11
2.6	Pa esemptiadau a geir i'r gofyniad am gymeradwyaeth yr SAB?	12
2.7	Beth yw'r diffiniad cyfreithiol o ddraenio cynaliadwy?	13
2.8	Beth yw ystyr gwaith adeiladu ac ardal adeiladu?	13
2.9	Beth yw ystyr systemau draenio eiddo sengl?	13
2.10	Beth fydd yn digwydd pan fo datblygiad yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr?	14
2.11	Beth fydd yn digwydd pan fo datblygiad yn croesi ffiniau i fwy nag un SAB?	14
2.12	Beth fydd yn digwydd pan fydd datblygiad wedi'i rannu'n gamau, ac yn cynnwys sawl cam adeiladu ac/neu sawl datblygwr?	14
2.13	Beth fydd yn digwydd pan fydd y datblygiad yn golygu newid defnydd?	15
2.14	A yw'r ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy yn berthnasol i ddraeniau dŵr budr?	15
Adran 3: Rôl Cymeradwyo a Mabwysiadu'r SAB		16
3.1	Pam bod swyddogaeth yr SAB wedi'i chynnwys mewn awdurdodau lleol?	16
3.2	Pa systemau draenio nad ydynt yn cael eu cymeradwyo na'u mabwysiadu gan yr SAB?	16
3.3	Pa systemau draenio a gaiff eu cymeradwyo a'u mabwysiadu gan yr SAB?	16
3.4	Pa systemau draenio a gaiff eu cymeradwyo ond na chaiff eu mabwysiadu gan yr SAB?	16
3.5	A oes angen cymeradwyaeth SAB ar gyfer ffyrdd yr awdurdod lleol?	17
3.6	A yw'r gofyniad am gymeradwyaeth gan SAB yn berthnasol wrth ôl-osod SuDS?	17
3.7	Pa fathau o ddatblygiad a allai fod yn systemau draenio eiddo sengl, sydd y tu hwnt i gwmpas dyletswydd mabwysiadu'r SAB?	17
3.8	A fydd sefydliadau neu gyrff eraill yn gallu cynnal a chadw SuDS a fabwysiedir?	18
3.9	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â pholisi lleol presennol?	18

3.10	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â rheoli risg llifogydd?	18
3.11	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â cheisiadau am ganiatâd cynllunio?	19
3.12	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â Pholisi Cynllunio TAN15 ar gyfer Cymru?	19
3.13	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â'r Awdurdodau Priffyrdd?	19
3.14	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â rheoliadau adeiladu?	20
3.15	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru?	20
3.16	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth?	20
3.17	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r Nodau Llesiant?	21
3.18	Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â Chyfarwyddebau Ansawdd Dŵr?	21
Adran 4: Dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau dŵr wyneb		22
4.1	Beth yw'r gofynion perthnasol ar gyfer SuDS gorfodol?	22
4.2	Sut mae'r Safonau SuDS Statudol yn gweithio, a beth y mae angen i ddatblygwyr ei wneud i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r safonau hynny?	23
4.3	Pa wybodaeth ddefnyddiol ychwanegol sydd ar gael am SuDS?	24
4.4	A ellir dechrau gwaith adeiladu ar gyfer y datblygiad cyn neu heb dderbyn cymeradwyaeth yr SAB?	25
4.5	Ym mha gam y dylid trafod cynigion amlinellol?	25
4.6	A gaiff SABs ac ymgylgoreion perthnasol godi tâl am gyngor cyn cyflwyno cais?	25
4.7	Pa agweddau gweithdrefnol y gellid eu trafod cyn cyflwyno cais?	25
4.8	Pa a gweddau technegol y gellid eu trafod cyn cyflwyno cais?	26
4.9	Pa wybodaeth dechnegol a allai fod yn berthnasol i'r cais SuDS	27
4.10	Pa wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r cynllun cynnal a chadw a'r trefniadau i'w ariannu?	29
4.11	Pa ganiatadau gollwng a allai fod yn berthnasol, a sut y dylid cyflwyno tystiolaeth ohonynt?	30
4.12	Sut y bydd y SuDS mwyaf priodol ac addas ar gyfer safle yn cael eu cymeradwyo?	30
4.13	Pa ystyriaeth a roddir i gynlluniau SuDS fforddiadwy a chost-effeithiol?	31
4.14	Beth os caiff y dyluniad arfaethedig ei addasu cyn derbyn cymeradwyaeth yr SAB?	31
4.15	Beth os bydd angen addasu'r dyluniad a gymeradwywyd eisoes gan yr SAB?	31
4.16	Pa arolygiadau a allai fod yn ofynnol gan yr SAB?	32
4.17	A waherddir cysylltiad â charthffos fudr neu gyfun?	32
4.18	Sut mae'r hawl i gysylltu â'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus wedi newid?	32
4.19	Sut mae'r hawl i gysylltu draenau dŵr wyneb o ffyrdd a gynhelir gan y cyhoedd â'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus wedi newid?	33
4.20	A oes gan yr SAB bŵer i brynu tir a hawddfreintiau yn orfodol?	33
4.21	A oes gan y datblygwr bwerau i gael mynediad i dir trydydd parti?	34
4.22	Pwy sy'n cynnal a chadw SuDS cyn i'r SAB eu mabwysiadu?	34
4.23	Pwy sy'n cynnal a chadw SuDS sydd wrth ymyl neu mewn ffordd a gynhelir gan y cyhoedd?	34

4.24	Pwy sy'n cynnal a chadw SuDS mewn ffordd breifat?	34
4.25	Sut y cynhelir SuDS os na cheir mynediad rhwydd atynt?	35
Adran 5: Ymgynghori statudol ac anstatudol		36
5.1	Pwy yw ymgynghoreion statudol yr SAB a beth yw eu rôl?	36
5.2	Ym mha gam y dylai datblygwyr gynnwys ymgynghoreion statudol?	36
5.3	Pa wybodaeth y dylai'r SAB ei hanfon at ymgynghoreion statudol?	37
5.4	Beth yw'r terfyn amser i ymgynghoreion statudol ymateb i'r SAB?	37
5.5	Sut mae cyngor yr ymgynghoreion statudol yn cyd-fynd â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS?	37
5.6	A all yr SAB anwybyddu cyngor gan ymgynghorai statudol?	38
5.7	A gaiff ymgynghoreion statudol godi ffi am roi cyngor?	38
5.8	A fydd yr SAB yn digolledu ymgynghoreion statudol am unrhyw gostau a achosir?	38
5.9	Pa ymgynghoriadau gwirfoddol a allai fod yn fuddiol?	38
Adran 6: Proses ymgeisio SuDS		39
6.1	Beth yw'r broses ymgeisio?	39
6.2	Beth ddylai datblygwyr ei wneud er mwyn cyflwyno cais?	39
6.3	Beth y mae'n rhaid ei gyflwyno gyda'r cais?	39
6.4	Sut mae cyflwyno cais am gymeradwyaeth draenio i'r SAB?	39
6.5	Sut mae cael copi o'r ffurflen gais?	40
6.6	A oes angen caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer pob cais SuDS y mae angen cymeradwyaeth yr SAB arno.	40
6.7	Pa mor hir bydd hi'n cymryd i dderbyn cymeradwyaeth yr SAB?	40
6.8	Pa ffioedd y caiff yr SAB eu codi?	40
6.9	Beth fydd yr SAB yn ei wneud ar ôl derbyn cais dilys?	42
6.10	Beth fydd yn digwydd os na fydd y cais SuDS yn ddilys?	42
6.11	Pa ymgynghoriadau statudol ac anstatudol y gallai'r SAB eu cynnal?	43
6.12	Pa amodau y gallai'r SAB eu gosod yn gysylltiedig â chymeradwyaeth?	43
6.13	Pa fond diffyg perfformiad a allai fod yn ofynnol gan yr SAB?	43
6.14	A fydd y safle datblygu yn cael ei archwilio cyn cael ei gymeradwy gan yr SAB?	44
6.15	Pa gytundebau y gallai fod ar yr SAB eu hangen i gefnogi mabwysiadu?	44
6.16	Pa benderfyniad y gall yr SAB ei roi, a beth ddylai'r datblygwr ei wneud?	44
6.17	Beth fydd yn digwydd i gais cynllunio os bydd yr SAB yn gwrthod rhoi cymeradwyaeth?	45
Adran 7: Proses mabwysiadu'r SuDS		46
7.1	Beth yw'r broses fabwysiadu ar gyfer yr SAB?	46
7.2	Pa SuDS nad ydynt yn cael eu mabwysiadu gan yr SAB?	46
7.3	Beth yw effaith mabwysiadu?	46
7.4	A ellir gwneud cais i fabwysiadu?	46
7.5	Beth yw'r amserlen ar gyfer penderfyniad i fabwysiadu?	46
7.6	Beth fydd yn digwydd os na fydd yr SAB yn bodloni'r amserlen ar gyfer penderfyniad i fabwysiadu?	47
7.7	Sut y bydd yr SAB yn mynd ati i benderfynu mabwysiadu, a beth fydd yn digwydd?	48

7.8	Pa amodau mabwysiadu y mae'n rhaid eu bodloni?	48
7.9	A all yr SAB wirfoddoli i fabwysiadu?	48
7.10	Pa gofrestrau y mae angen i'r SAB eu cadw ar gyfer asedau SuDS a fabwysiedir?	48
7.11	Pwy sy'n atebol am sicrhau bod y SuDS a fabwysiedir yn cael eu cynnal a'u cadw?	49
7.12	Sut yr ariennir gwaith i gynnal a chadw SuDS a fabwysiedir?	49
Atodiadau		
1	Siart lif o'r broses cymeradwyo SuDS	51

Adran 1: Y Cyd-destun

1.1 Beth yw statws y ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn awgrymu atebion i'r cwestiynau mwyaf cyffredin ynghylch y broses ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu SuDS ac yn tynnu sylw at y rhwymedigaethau a'r gofynion statudol y mae'n rhaid i'r holl bartïon eu bodloni.

Gall awdurdodau lleol hefyd lunio canllawiau lleol yn rhan o'u rôl fel yr SAB. O dan y ddeddfwriaeth caiff SABs bennu rhai gofynion, gan gynnwys y ffurflen a'r wybodaeth sydd i'w cyflwyno gyda'r cais i gymeradwyo SuDS, ac unrhyw amodau'n gysylltiedig â chymeradwyaeth yr SAB.

Mae'r canllawiau hyn yn ategol i'r canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar weithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, ond nid ydynt yn disodli'r canllawiau hynny. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru.

1.2 Pam bod angen SuDS gorfodol mewn datblygiadau newydd?

Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem ddifrifol, a nodwyd yn ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol³ ymhlith prif achosion llifogydd mewn cartrefi. Mae'r effaith ar ddinasyddion a chymunedau, a'r gost i economi Cymru, yn sylweddol. Mae'r perygl o lifogydd ar gynnydd yn sgil y newid yn yr hinsawdd a threfoli. Yn arbennig, mae llifogydd lleol yn sgil gorlwytho systemau draenio a charthffosydd cyfaint cyfyngedig yn destun pryder cynyddol. O dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae ALILIAu yn gyfrifol am reoli perygl llifogydd lleol, sy'n cynnwys llifogydd yn sgil dŵr wyneb.

Gall dŵr ffo wyneb hefyd fod yn ffynhonnell ar gyfer llygredd gwasgaredig. Bydd y difrod posibl i'n dŵr daear a'n hafonydd yn sgil dŵr ffo wyneb llygredig yn cynyddu gyda phob datblygiad newydd.

Mae'r cyfiawnhad dros SuDS, a'r defnydd ohonynt, wedi'i hen sefydlu o fewn y system gynllunio, sy'n cynnwys TAN15 a Dogfen Gymeradwy H o'r Rheoliadau Adeiladu, yn ogystal â safonau gwirfoddol fel yr Home Quality Mark. Fodd bynnag, er bod safonau a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer SuDS wedi cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror 2016, roedd y defnydd o SuDS yn parhau i fod yn isel, gan gyfyngu ar gyfraniad posibl SuDS at liniaru perygl llifogydd o ddŵr ffo wyneb a'r perygl o orlwytho carthffosydd, neu at warchod ansawdd dŵr.

Mewn ymchwil i gostau a buddion SuDS ar ddatblygiadau newydd, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (cyhoeddi ym mis Ionawr 2017), canfuwyd bod y farchnad wedi bod yn araf wrth gynnwys SuDS yn wirfoddoli mewn cynlluniau datblygu, a hynny i raddau helaeth am y rhesymau canlynol:

³ Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, ar gael yn: <https://gov.wales/docs/desh/publications/120412nssummarycy.pdf>

- Diffyg gwybodaeth - gwelwyd diffyg defnydd cyson o safonau a argymhellir a'r canfyddiad bod SuDS yn ddrud ac yn golygu gwario mwy o arian ar agweddau nad ydynt yn hanfodol.
- Y ffaith nad oes gofyniad statudol a'r ansicrwydd ynghylch mabwysiadu a gweithredu, a gwaith cynnal a chadw parhaus.

Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau ar y farchnad, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn deddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer defnydd gorfodol o SuDS ar ddatblygiadau newydd, a ddaw i rym o 7 Ionawr 2019. Mae'r polisi wedi bod yn destun [Asesiad Effaith Rheoleiddio](#) ac wedi'i seilio ar gyfres o ymgynghoriadau a gweithdai â rhanddeiliaid, ac yn cynnwys mewnbwn o'r fforwm rhanddeiliaid allanol, y Grŵp Cyngori SuDS.

1.3 Beth yw'r SAB?

Mae Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn sefydlu SABs mewn awdurdodau lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi cyfrifoldeb statudol i'r cyrff hynny gymeradwyo systemau draenio, a'u mabwysiadu mewn amgylchiadau penodol.

Mae'r SAB wedi'i sefydlu i:

- Werthuso a chymeradwyo ceisiadau draenio ar gyfer datblygiadau newydd lle bo goblygiadau draenio yn gysylltiedig â gwaith, adeiladu, a
- Mabwysiadu a chynnal a chadw cynlluniau SuDS, yn ddarostyngedig i'r amodau a'r esemptiadau a nodir yn y ddeddfwriaeth.

1.4 Beth yw cais draenio SuDS?

Mae'n **rhaid** cyflwyno cais sy'n dangos cydymffurfiaeth â Safonau Statudol ar gyfer SuDS o ran dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd i'r SAB.

Gellir cyflwyno ceisiadau i'r SAB wneud penderfyniad yn eu cylch naill a'n uniongyrchol neu fel cais annibynnol, neu ar y cyd â'r cais cynllunio drwy'r ACLI.

Mae'n bwysig nodi **na cheir cychwyn** gwaith adeiladu a chanddo oblygiadau draenio onid yw'r system ddraenio ar gyfer y gwaith wedi'i chymeradwyo gan yr SAB.

1.5 Pryd y bydd defnyddio SuDS a derbyn cymeradwyaeth ar eu cyfer gan yr SAB yn dod yn orfodol?

O 7 Ionawr 2019, bydd angen SuDS ar gyfer dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag 1 tŷ annedd, neu lle bo'r arwynebedd adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy.

O'r dyddiad hwn ymlaen, bydd yn rhaid dylunio ac adeiladu SuDS ar ddatblygiadau newydd yn unol â'r [Safonau Statudol ar gyfer SuDS](#) a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, a bydd yn rhaid i Gynlluniau SuDS fod wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei rôl fel SAB, **cyn cychwyn gwaith adeiladu.**

Adran 2: Gweithredu

2.1 Beth yw'r prif ddarpariaethau statudol ar gyfer draenio cynaliadwy?

Mae'r darpariaethau cyfreithiol ar gyfer draenio cynaliadwy wedi'u nodi yn [Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010](#). Mae'r ddeddfwriaeth hon:

- Yn sefydlu'r SAB o fewn yr awdurdod lleol.
- Yn cynnwys darpariaeth bod yn rhaid i systemau draenio ar gyfer rheoli dŵr glaw (gan gynnwys dŵr glaw, eira a dyodiadau eraill) ar gyfer datblygiadau newydd **fod wedi'u cymeradwyo gan yr SAB cyn dechrau adeiladu**.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Safonau Cenedlaethol ar gyfer SuDS (Safonau Statudol ar gyfer SuDS) ar gyfer dylunio, adeiladu gweithredu a chynnal a chadw SuDS. Er mwyn i'r SAB ei chymeradwyo, mae'n rhaid i'r system ddraenio arfaethedig fodloni'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS.
- Yn gosod dyletswydd ar yr SAB i fabwysiadu a chynnal a chadw SuDS cymeradwy sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo. Er mwyn i'r SAB fabwysiadu'r system ddraenio, mae'n rhaid iddi fod wedi'i hadeiladu a gweithredu fel y cymeradwywyd yn unol â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS.
- Yn mewnosod adran newydd 106A yn Ndeddf Diwydiant Dŵr 1991, sy'n ychwanegu at y darpariaethau a geir eisoes yn adran 106 o'r Ddeddf honno, gan beri bod yr hawl i gysylltu dŵr wyneb â charthffosydd cyhoeddus yn amodol ar sicrhau cymeradwyaeth yr SAB ar gyfer y system ddraenio, fel system sy'n bodloni'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS.
- Yn nodi Ymglymerwyr Carthffosiaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dyfrffyrdd Prydain ac Awdurdod Priffyrdd fel ymgynghoreion statudol yr SAB.
- Yn darparu ar gyfer cyfundrefn orfodi ac apelio'r SAB.
- Yn darparu mecanwaith ar gyfer adfer costau rhesymol a achosir wrth i'r SAB gyflawni ei swyddogaeth.

2.2 Beth yw'r rheoliadau ar gyfer cymeradwyo, mabwysiadu, gorfodi ac apelio yn erbyn penderfyniadau SuDS?

Gwnaed pum offeryn statudol o dan y ddeddfwriaeth. Mae'r rhain yn ymdrin â'r canlynol:

- Cymeradwyo a Mabwysiadu ([Gorchymyn Draenio Cynaliadwy \(Cymeradwyo a Mabwysiadu\) \(Cymru\) 2018](#)),
- Materion gweithdrefnol yn gysylltiedig â chymeradwyo a mabwysiadu ([Rheoliadau Draenio Cynaliadwy \(Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu\)](#))

[2018](#)),

- Ffioedd ([Rheoliadau Draenio Cynaliadwy \(Cais am Ffioedd Cymeradwyo\) Cymru 2018](#)),
- Gorfodi'r gofyniad sicrhau cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SuDS ([Gorchymyn Draenio Cynaliadwy \(Gorfodi\) \(Cymru\) 2018](#)); a'r
- Apelau yn erbyn penderfyniadau'r Corff Cymeradwyo SuDS ([Rheoliadau Draenio Cynaliadwy \(Apelau\) \(Cymru\) 2018](#)).

2.3 Beth yw'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS?

O dan y ddeddfwriaeth mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion SuDS sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol.

Mae [Safonau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer systemau draenio cynaliadwy, 2018](#) yn trafod **dyluniad, adeiladwaith, gweithrediad a threfniadau cynnal a chadw SuDS** sydd yn gwasanaethu datblygiadau newydd.

Daw'r safonau statudol ar gyfer SuDS i rym o 7 Ionawr 2019 ymlaen, ac maent yn berthnasol i bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag 1 annedd, neu lle bo'r gwaith adeiladu yn cynnwys 100 metr sgwâr neu fwy.

Dylid ystyried systemau draenio yn y camau cynharaf wrth ddylunio'r safle, a dylai datblygwyr a'r SAB drafod opsiynau draenio posibl cyn cyflwyno cais i gymeradwyo SuDS. Fel y nodir yn adran egwyddorion y safonau statudol ar gyfer SuDS, bydd angen i ddatblygwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r safonau statudol ar gyfer SuDS drwy gyflwyno ceisiadau draenio i'w cymeradwyo gan yr SAB.

Wrth ystyried cais am gymeradwyaeth, bydd yr SAB yn:

- ei ganiatáu, os yw'n fodlon y bydd y system ddraenio'n cydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS o'i hadeiladu'n unol â'r cynnig; neu'n
- ei wrthod os nad yw'n fodlon.

2.4 Pa ganllawiau statudol sydd ar gael i awdurdodau lleol?

Canllawiau gan Lywodraeth Cymru yw'r Canllawiau Statudol ar Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) i awdurdodau lleol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hynny yn gysylltiedig â'u rôl fel SAB.

2.5 Beth yw'r trefniadau trosiannol ar gyfer datblygiadau sydd ar y gweill?

Pan ddaw'r gofynion statudol i rym ar gyfer SuDS, bydd llawer o'r gwaith cynllunio wedi'i gwblhau ar gyfer rhai datblygiadau. Mae trefniadau trosiannol ar waith er mwyn osgoi creu gwaith ychwanegol i ddatblygiadau sydd eisoes ar y gweill.

Nid yw'r gofyniad am gymeradwyaeth a chytundebau mabwysiadu'r SAB ar gyfer draenio dŵr wyneb ond yn berthnasol i ddatblygiadau newydd, ac nid yw'n ôl-weithredol. Yn achos safleoedd presennol a datblygiadau a chanddynt ganiatâd cynllunio neu ganiatâd cynllunio tybiedig (onid ydynt yn ddarostyngedig i faterion a gadwyd yn ôl - gweler isod), neu y daeth cais dilys i lawr eu cyfer, ond na wnaed penderfyniad yn eu cylch, erbyn 7 Ionawr 2019, ni fydd yn ofynnol gwneud cais am gymeradwyaeth yr SAB.

Bydd angen cymeradwyaeth yr SAB ar gyfer datblygiadau a ganiateir sy'n 100 metr sgwâr neu fwy ac yr hysbysir amdanynt ar ôl 7 Ionawr 2019.

Bydd angen cymeradwyaeth yr SAB os rhoddyd y caniatâd cynllunio yn unol ag amod ynghylch mater a gadwir yn ôl ac na chyflwynir cais i gymeradwyo'r mater a gadwyd yn ôl cyn 7 Ionawr 2020.

Mae'n bosibl na fydd angen i'r SAB gymeradwyo na mabwysiadu rhai datblygiadau sydd eisoes ar y gweill ar 7 Ionawr, ond credwn, serch hynny, fod buddion y broses newydd yn golygu y byddai'n fanteisiol i ddatblygwyr a'r SAB ystyried cytundebau gwirfoddol ar gyfer y safleoedd hyn.

2.6 Pa esemptiadau a geir i'r gofyniad am gymeradwyaeth yr SAB?

Nid oes angen cymeradwyaeth yr SAB ar gyfer:

- Datblygiad a ganiateir sy'n cynnwys arwynebedd llai na 100 metr sgwâr.
- Datblygiadau a chanddynt oblygiadau draenio yn gysylltiedig ag un annedd, a lle bo arwynebedd y tir y ceir gwaith adeiladu arno yn llai na 100 metr sgwâr, neu
- Yn achos unrhyw fath arall o waith adeiladu, bod arwynebedd y tir y ceir gwaith adeiladu arno yn llai na 100 metr sgwâr.

O dan y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, mae gwaith lle mae angen caniatâd datblygu yn rhan o brosiect seilwaith o bwys cenedlaethol wedi'i esemptio o'r angen am gymeradwyaeth yr SAB.

Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio gorchmynion ynghylch esemptiadau pellach. Yn unol â hynny, mae'r gwaith adeiladu a ganlyn wedi'u hesemptio o'r angen am gymeradwyaeth gan yr SAB:

- gwaith adeiladu a gyflawnir gan fwrdd draenio mewnol (Cyfoeth Naturiol Cymru) wrth arfer ei swyddogaeth o dan Ddeddf Draenio Tir 1991;
- gwaith adeiladu a gyflawnir er mwyn adeiladu canlynol, neu'n gysylltiedig â hynny -
 - (i) ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod priffyrdd arni,
 - (ii) rheilffordd gan Network Rail.

2.7 Beth yw'r diffiniad cyfreithiol o ddraenio cynaliadwy?

O dan y ddeddfwriaeth, diffinnir draenio cynaliadwy fel rheoli dŵr glaw (gan gynnwys eira a dyodiadau eraill) gan anelu i:

- Lleihau difrod yn sgil llifogydd,
- Gwella ansawdd y dŵr,
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd,
- Gwarchod iechyd a diogelwch, a
- Sicrhau sefydlogrwydd a chydnerthedd systemau draenio.

Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwerthuso a yw system ddraenio yn system ddraenio gynaliadwy.

2.8 Beth yw'r diffiniad o waith adeiladu ac ardal adeiladu?

Gellir defnyddio SuDS yn effeithiol mewn ardaloedd gwledig a threfol i gefnogi gwaith datblygu ac ailddatblygu newydd, gan leihau'r perygl o lifogydd dŵr wyneb a chreu cyfleoedd am ansawdd dŵr gwell, cynefinoedd sy'n llawn bioamrywiaeth, ac ardaloedd hamdden newydd i'r gymuned.

Mae'r gofyniad am gymeradwyaeth yr SAB yn berthnasol i'r **holl waith adeiladu a chanddo oblygiadau draenio** lle mae'r gwaith datblygu neu ailddatblygu yn cynnwys mwy nag un tŷ annedd neu'n golygu codi adeilad neu strwythur arall sy'n gorchuddio arwynebedd 100 metr sgwâr neu fwy (onid yw'n perthyn i unrhyw un o'r esemptiadau penodol neu'r trefniadau trosiannol a restrir hefyd yn y Cwestiynau Cyffredin hyn).

Yn y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy:

- Mae **gwaith adeiladu** yn golygu unrhyw beth a wneir wrth greu adeilad neu strwythur arall, yn gysylltiedig â hynny, neu wrth baratoi ar gyfer hynny, ac
- Fe geir **goblygiadau draenio** yn gysylltiedig â gwaith adeiladu os bydd yr adeilad neu'r strwythur yn effeithio ar allu'r tir i amsugno dŵr glaw.

Diffinnir **ardal adeiladu** yn y rheoliadau ar gyfer draenio cynaliadwy fel arfer fel arwynebedd o 100 metr sgwâr neu fwy y codir adeilad neu strwythur arall arno.

2.9 Beth yw'r diffiniad o systemau draenio eiddo sengl?

Mae systemau draenio eiddo sengl wedi'u hesemptio o ddyletswydd mabwysiadu'r SAB. I'r diben hwn, mae eiddo sengl yn golygu system ddraenio a berchnogir ac a reolir gan unigolyn neu ddau neu fwy o unigolion gyda'i gilydd.

2.10 Beth fydd yn digwydd pan fo datblygiad yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr?

O dan y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, os bydd rhan o system ddraenio yng Nghymru a rhan ohoni yn Lloegr, dylid trin y naill ran a'r llall fel systemau ar wahân. Yr unig eithriad i hyn yw y gellir, wrth wneud penderfyniadau ynghylch y naill ran, ystyried presenoldeb ac effaith y rhan arall.

2.11 Beth fydd yn digwydd pan fo datblygiad yn croesi ffiniau i fwy nag un SAB?

O dan y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, yr SAB yw'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle bwriedir adeiladu'r SuDS.

Os yw'r system ddraenio o fewn ardal ddaearyddol sy'n cynnwys mwy nag un SAB, i ddibenion gweinyddol dylid trin yr holl rannau fel systemau ar wahân (hy, bydd angen cyflwyno cais am gymeradwyaeth SuDS ynghyd 'r ffi ymgeisio i bob SAB perthnasol). Fodd bynnag, efallai y bydd cymeradwyaeth yr SAB yn ddarostyngedig i amodau y ceir gwneud penderfyniadau yn gysylltiedig â'r naill ran o roi ystyriaeth i bresenoldeb ac effaith y rhan arall.

Nid yw SABs yn ymgylgoreion statudol o dan y ddeddfwriaeth, felly bydd angen sefydlu sianeli cyfathrebu effeithiol rhwng SABs. Efallai y bydd SABs yn dymuno sefydlu cytundebau lleol defnyddiol sy'n nodi sut y bydd SABs cydffiniol yn cydweithio.

2.12 Beth fydd yn digwydd pan fydd datblygiad wedi'i rannu'n gamau, ac yn cynnwys sawl cam adeiladu ac/neu sawl datblygwr?

Ar gyfer datblygiadau mawr a gynhelir fesul cam, a allai gynnwys safleoedd a chanddynt sawl cam adeiladu lle ceir sawl datblygwr, dylai'r SAB, yr ACLI a'r datblygwyr sefydlu ymagwedd strategol gyffredinol at ddyluniad draeniau cynaliadwy. Dylai hyn gynnwys cytuno ar egwyddorion draenio eang strategol ar gyfer camau datblygu ac adeiladu, sydd yn gyson â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS a pholisïau lleol perthnasol.

Bydd hyn o gymorth i osgoi problemau posibl fel anghysondebau wrth ddarparu datrysiadau draenio, a allai arwain at gynnydd yn y perygl o lifogydd neu fethiant i ddarparu systemau draenio cynaliadwy cydymffurfiol, ac achosi oedi diangen yn y camau adeiladu diweddarach.

Pan fydd y cais draenio yn cael ei gyflwyno, efallai y bydd yr SAB yn dymuno cyfeirio at yr egwyddorion draenio eang strategol y cytunwyd arnynt ar gyfer y datblygiad yn yr amodau sy'n gysylltiedig â chymeradwyaeth yr SAB.

Gweler hefyd y Safonau Statudol ar gyfer SuDS, yn enwedig Safon 6 (A6), a Llawlyfr SuDS CIRIA, sy'n cynnwys canllawiau manwl ar ddylunio cynllun SuDS.

2.13 Beth fydd yn digwydd pan fydd y datblygiad yn golygu newid defnydd?

Mae'r gofyniad am gymeradwyaeth yr SAB yn berthnasol i'r **holl waith adeiladu a chanddo oblygiadau draenio** lle bo'r gwaith datblygu neu ailddatblygu yn cynnwys mwy nag un tŷ annedd neu'n golygu codi adeilad neu strwythur arall sy'n gorchuddio tir ag arwynebedd o 100 metr sgwâr neu fwy.

Yng nghyd-destun datblygiadau newydd a geir yn sgil [Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Dosbarthiadau Defnydd\) 1987](#) (fel y'i diwygiwyd) gallai'r canllawiau isod fod yn ddefnyddiol i SABs wrth gyflawni eu swyddogaeth gymeradwyo.

Awgrymiadau, yn hytrach na chyfarwyddyd pendant, yw'r canllawiau isod ynghylch newid defnydd. Ym mhob achos, dylai datblygwyr ofyn am gyngor swyddogol yn uniongyrchol oddi SAB perthnasol yr ardal yn fuan ym mhroses y cais datblygu.

- Newid defnydd lle cedwir yr ôl troed a'r adeilad gwreiddiol: lle na chyflawnir unrhyw waith adeiladu yn gysylltiedig â chreu adeilad neu strwythur arall, neu wrth baratoi am hynny, nid yw'n ofynnol sicrhau cymeradwyaeth yr SAB.
- Newid defnydd lle cedwir yr adeilad gwreiddiol a lle rhoddir estyniad llai na 100 metr sgwâr ar yr ôl troed gwreiddiol: os yw'r gwaith adeiladu ar gyfer annedd sengl ac/neu os yw'r ardal adeiladu yn is na'r trothwy o 100 metr sgwâr, nid yw'n ofynnol sicrhau cymeradwyaeth yr SAB.
- Newid defnydd lle cedwir yr adeilad gwreiddiol a lle caiff yr ôl troed gwreiddiol ei estyn 100 metr sgwâr neu fwy: lle bo'r gwaith adeiladu'n hafal i'r trothwy ar gyfer yr ardal adeiladu, neu'n uwch na hynny, bydd yn ofynnol sicrhau cymeradwyaeth yr SAB (bydd angen ystyried y dull mwyaf effeithiol o integreiddio SuDS yn y dyluniad cyffredinol).
- Newid defnydd lle bo'r adeilad gwreiddiol yn cael ei daro i lawr a strwythur newydd yn cael ei godi. os yw'r gwaith adeiladu ar gyfer mwy na thŷ annedd sengl ac/neu os yw'r ardal adeiladu yn cynnwys 100 metr sgwâr neu fwy, bydd yn ofynnol sicrhau cymeradwyaeth yr SAB.

2.14 A yw'r ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy yn berthnasol i ddraeniau dŵr budr?

Nac ydy. Mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i ddraenio dŵr wyneb yn unig. Mae safonau statudol SuDS ar gyfer dylunio, adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu SuDS yn gwahardd cysylltu dŵr ffo wyneb â draen dŵr budr.

Ar gyfer draenio dŵr budr, mae adran 42 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygwyr sydd am gysylltu â charthffos gyhoeddus ymrwymo i gytundeb gorfodol er mwyn i'r ymgymwrwr fabwysiadu carthffosydd newydd cysylltiol (o dan adran 104 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991). Mae'n rhaid i'r cytundeb nodi y bydd carthffosydd newydd yn cael eu hadeiladu hyd at safon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, neu safon arall y gellir cytuno arni.

Adran 3: Rôl Cymeradwyo a Mabwysiadu'r SAB

3.1 Pam bod swyddogaeth yr SAB wedi'i chynnwys mewn awdurdodau lleol?

Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy yn rhoi'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo a mabwysiadu SuDS i awdurdodau lleol. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'u cyfrifoldebau presennol dros briffyrdd a chynllunio, yn ogystal â'u rôl ALILIA, fel y nodir hefyd yn Ndedf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae ganddynt drosolwg strategol o faterion dŵr wyneb a llifogydd a fydd yn hollbwysig er mwyn sicrhau system ddraenio effeithiol a chynaliadwy sydd wedi'i dylunio'n dda ac sy'n ymateb i'r dalgylch yn hytrach nag ymagwedd pen-y-bibell.

3.2 Pa systemau draenio na chaiff eu cymeradwyo na'u mabwysiadu gan yr SAB?

Nid yw'r SAB yn cymeradwyo, ac felly nid yw'n mabwysiadu, systemau draenio sydd:

- Wedi'u cynnwys mewn trefniadau trosiannol ar gyfer datblygiadau sydd eisoes ar y gweill.
- Yn gwasanaethu datblygiad a ganiateir lle bo'r ardal adeiladu yn llai na 100 metr sgwâr.
- Yn gwasanaethu datblygiad sy'n cynnwys tŷ annedd sengl, a lle bo'r ardal adeiladu yn llai na 100 metr sgwâr. Neu, unrhyw fath o ddatblygiad lle bo'r ardal adeiladu yn llai na 100 metr sgwâr.
- Yn rhan o'r rhwydwaith ffyrdd strategol (y mae Gweinidogion Cymru yn Awdurdod Priffyrdd arno)
- Yn rhan o'r rhwydwaith rheilffordd cenedlaethol.
- Yn rhan o harbwr.
- Wedi'u hadeiladu gan y bwrdd draenio mewnol (Cyfoeth Naturiol Cymru) wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddedf Draenio Tir 1991.

3.3 Pa systemau draenio a gaiff eu cymeradwyo a'u mabwysiadu gan yr SAB?

Mae'r SAB:

- Yn cymeradwyo unrhyw ran o system ddraenio os oes mwy nag un annedd yn cael ei chodi yn rhan o'r gwaith adeiladu, neu os yw'r ardal adeiladu yn hafal i 100 metr sgwâr neu'n fwy na hynny, ac
- Yn mabwysiadu (yn ddarostyngedig o amodau penodol yn gysylltiedig â mabwysiadu a nodwyd yn y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy) unrhyw ran o system ddraenio sy'n gwasanaethu mwy na system ddraenio eiddo sengl.

Gweler y diffiniadau o: adeiladu, ardal adeiladu, systemau draenio eiddo sengl a'r mathau o ddatblygiad a allai fod yn systemau draenio eiddo sengl, sydd hefyd wedi'u rhestru yn y cwestiynau cyffredin hyn.

3.4 Pa systemau draenio a gaiff eu cymeradwyo ond na chaiff eu mabwysiadu gan yr SAB?

O dan y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, mae'r SAB yn cymeradwyo system ddraenio ond nid yw'n ei mabwysiadu os yw'n:

- Gwasanaethu system ddraenio eiddo sengl.
- Ffordd a gynhelir yn gyhoeddus y mae Adran 41 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn berthnasol iddi.

Gweler y diffiniadau o: systemau draenio eiddo sengl a'r mathau o ddatblygiadau a allai fod yn systemau draenio eiddo sengl, sydd hefyd wedi'u rhestru yn y cwestiynau cyffredin hyn.

3.5 A oes angen cymeradwyaeth SAB ar gyfer ffyrdd yn awdurdod lleol?

Bydd angen cymeradwyaeth yr SAB wrth adeiladu ffyrdd newydd yr awdurdod lleol. Fodd bynnag ni fydd yr SAB yn mabwysiadu ffordd a gynhelir yn gyhoeddus y mae Adran 41 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn berthnasol iddi.

3.6 A yw'r gofyniad am gymeradwyaeth gan SAB yn berthnasol wrth ôl-osod SuDS?

Nid yw'r gofyniad am gymeradwyaeth yr SAB ond yn berthnasol i'r defnydd o SuDS ar waith datblygu ac ailddatblygu newydd.

Serch hynny, gall datblygwyr barhau i ddefnyddio'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS fel fframwaith defnyddiol i ddarparu cynlluniau SuDS ôl-weithredol.

3.7 Pa fathau o ddatblygiad a allai fod yn systemau draenio eiddo sengl, sydd y tu hwnt i gwmpas dyletswydd mabwysiadu'r SAB?

Nid yw dyletswydd yr SAB i fabwysiadu yn berthnasol os yw'r SuDS yn gwasanaethu system draenio eiddo sengl (a ddiffinnir yn y rheoliadau ar gyfer draenio cynaliadwy fel safle a reolir gan unigolyn neu ddau neu fwy o unigolion gyda'i gilydd).

Gallai enghreifftiau o'r mathau hyn o ddatblygiad gynnwys:

- Adeiladau preswyl sy'n cynnwys amryw o fflatiau.
- Tŷ annedd sengl
- Cyfadeiladau ymddeol
- Adeilad masnachol neu swyddfa

- Datblygiad diwydiannol neu ystâd fasnachol
- Campws ysgol neu brifysgol
- Clwb chwaraeon
- Ysbyty neu gyfleuster meddygol arall

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, yr SAB yn y pen draw fydd i benderfynu'r hyn y mae 'system eiddo sengl' yn ei olygu o dan y ddeddfwriaeth.

3.8 A fydd sefydliadau neu gyrff eraill yn gallu cynnal SuDS a fabwysiedir?

Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy yn rhoi'r pwerau a'r dyletswyddau ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu SuDS i'r SAB, sydd oddi mewn i awdurdodau lleol.

Yn ôl y Safonau Statudol ar gyfer SuDS, dylid cyflwyno cynigion ar gyfer cynnal a chadw'r cynllun SuDS, a dull o ariannu hynny hyd ddiwedd oes y cynllun, gyda cheisiadau am gymeradwyaeth yr SAB. Yr SAB, yn y pen draw, fydd i benderfynu a yw'r cynigion yn briodol o dan y Safonau Statudol ar gyfer SuDS, ac unrhyw bolisiau lleol.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal yr SAB rhag trosglwyddo gwaith cynnal a chadw ar SuDS i sefydliadau na chyrrff eraill, drwy gytundeb. Er hynny, bydd yr SAB yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am y SuDS a fabwysiadwyd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n unol â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS.

3.9 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â pholisi lleol presennol?

O dan y Safonau Statudol ar gyfer SuDS, dylid ystyried unrhyw ddogfennau cynllunio lleol perthnasol wrth ddylunio datblygiadau.

Yn benodol, mae nifer o ACLlau wedi mabwysiadu canllawiau ar ddraenio cynaliadwy y dylid eu hystyried mewn unrhyw gais datblygu.

Bydd polisiau perygl llifogydd presennol yn y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol, unrhyw asesiadau o ganlyniadau llifogydd, cynlluniau rheoli dŵr wyneb, cynllun rheoli llifogydd y dalgylch a'r cynllun rheoli basn afon, hefyd yn arbennig o berthnasol, a dylid rhoi ystyriaeth iddynt.

3.10 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â rheoli risg llifogydd?

Mae'n bwysig i ddatblygwyr gysylltu â'u hawdurdod lleol yn eu rôl fel ALILIA er mwyn cael gwybodaeth berthnasol fydd o gymorth iddynt lunio eu meini prawf ar gyfer dylunio SuDS ar y safle.

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'n ofynnol i ALILIAu ddatblygu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ar gyfer eu hardal. Bydd y strategaeth honno'n ystyried nodweddion amgylcheddol y pwysau ar ddatblygu, daeareg, priddoedd a'r ymadwaith â llifogydd afonol ac arfordirol. Bydd cyfeirio at fersiynau

cyfredol cynlluniau rheoli perygl llifogydd, y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd a mapiau llifogydd o gymorth i oleuo dyluniad y SuDS⁴.

Mae'r polisi cynllunio perthnasol wedi'i nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 15 Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu a Pherygl Llifogydd. Bydd y Map Cyngor Datblygu o gymorth i nodi safleoedd a allai fod mewn perygl o lifogydd o afonydd a'r môr. Yn yr ardaloedd hyn, mae'n ofynnol i ddatblygwyr gyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd er mwyn trafod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig.

3.11 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â cheisiadau am ganiatâd cynllunio?

Mae cymeradwyaeth yr SAB yn annibynnol ar ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, gan fod yn rhaid i'r SAB fod wedi cymeradwyo'r cynllun SuDS **cyn dechrau unrhyw waith adeiladu** mae'n hanfodol ystyried datrysiadau draenio wrth greu'r cynllun amlinellol. Drwy ystyried hyn yn fuan bydd modd sicrhau bod datrysiadau draenio arfaethedig yn cydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS a hefyd yn briodol i'r safle, fydd o gymorth i osgoi unrhyw oedi diangen wrth adeiladu.

Nid yw'r ACLI yn ymgynghorai statudol o dan y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy. Gan hynny, bydd angen sefydlu sianelau cyfathrebu effeithiol rhwng yr SAB a'r ACLI. Gallai fod yn fuddiol sefydlu cytundebau lleol sy'n disgrifio sut y bydd yr adrannau hyn o'r awdurdod lleol yn cydweithio.

Dylai datblygwyr ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS a pholisi lleol wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio. Mae'n debygol y bydd lle o hyd i roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau adran 106 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a luniwyd i sicrhau trefniadau digonol ar gyfer draenio dŵr wyneb a dŵr budr.

Gall datblygwyr gyflwyno eu cais i'r SAB wneud penderfyniad yn ei gylch, naill ai'n uniongyrchol i'r SAB fel cais annibynnol, neu ar y cyd â'r cais cynllunio drwy'r ACLI.

3.12 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â Pholisi Cynllunio TAN15 ar gyfer Cymru?

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN15) yn rhoi canllawiau sy'n ategu'r polisi a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru ynghylch datblygu a llifogydd.

Mae'n nodi'r gofynion o ran defnyddio Mapiau Cyngor Datblygu, ac i ddatblygwyr gyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd er mwyn ymdrin â'r peryglon yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig.

3.13 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â'r Awdurdodau Priffyrdd?

Manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd am SuDS drwy sicrhau bod yr SAB ac Awdurdodau Priffyrdd yn cydweithio. Argymhellir y dylai'r SAB gysylltu â'r Awdurdod Priffyrdd perthnasol ar y cyfle cyntaf yn y cyfnod cyn ymgeisio, er mwyn canfod pa rannau o'r

⁴<https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy>

cynllun SuDS ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd y gellid bod angen eu cymeradwyo a'u mabwysiadu.

- Nid yw'r SAB yn cymeradwyo nac yn mabwysiadu cynlluniau SuDS sydd y rhan o ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn Awdurdod Priffyrdd arnynt (fel y diffinnir yn adran 1(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980).
- Mae'r SAB yn cymeradwyo cynlluniau SuDS sydd yn rhan o 'ffordd a gynhelir yn gyhoeddus' (sef priffordd y mae'r ddyletswydd o dan adran 41 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn berthnasol iddi (cynnal ar draul y cyhoedd), ond nid yw'n mabwysiadu'r cynlluniau hynny. Pan fo Awdurdod Priffyrdd yn mabwysiadu ffordd sydd i'w chynnal ar draul y cyhoedd, mae'n rhaid iddo weithredu'n unol â'r dyluniad draenio cymeradwy, gan gynnwys y gyfundrefn cynnal a chadw, gan gydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS. Dylid diwygio polisiau mabwysiadu priffyrdd i adlewyrchu hyn.

Mae'r SAB wedi'i esemptio rhag mabwysiadu unrhyw ran o system ddraenio gynaliadwy y mae'r Awdurdod Priffyrdd eisoes yn gyfrifol, neu y gallai fod yn gyfrifol, am ei chynnal a'i chadw.

3.14 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â rheoliadau adeiladu?

Anogir datblygwyr i gysylltu'n fuan â'u corff Rheoli Adeiladu (Rheoli Adeiladu Awdurdod Lleol neu Arolygydd Cymeradwy preifat) er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r cynllun SuDS arfaethedig.

Mae Dogfen Gymeradwy H (Draenio a gwaredu gwastraff)⁵, Adran H3, o Reoliadau Adeiladu 2010 yn rhoi canllawiau ar fodloni gofynion technegol yn gysylltiedig â draenio dŵr wyneb. Bydd y rhain yn parhau i fod yn berthnasol o fewn ffiniau'r eiddo.

Mae Dogfen Gymeradwy H yn nodi rhestr o opsiynau ar gyfer gwaredu dŵr glaw yn ôl y drefn y cânt eu ffafrio, sydd yn gyson â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS. Gollwng i garthffos yw'r opsiwn olaf, a'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio leiaf.

3.15 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â Seilwaith Cenedlaethol Cymru?

Gall SuDS gefnogi amcanion Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, sy'n cynghori ar faterion yn gysylltiedig â'r holl seilwaith economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys rheoli draenio, dŵr, carthion a llifogydd, ynghyd â materion eraill fel ynni, trafnidiaeth a chyfathrebu digidol.

3.16 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth?

Yn ôl y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (Dyletswydd Adan 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016), mae'n ofynnol i'r holl awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau.

⁵ <https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-h-drainage/?skip=1&lang=cy>

Hynny yw, dylid dylunio SuDS mewn modd sydd yn cynyddu gwerth bioamrywiaeth hyd yr eithaf drwy:

- Gefnogi a hyrwyddo rhywogaethau a chynefinoedd lleol naturiol,
- Cyfrannu at gyflawni amcanion bioamrywiaeth lleol.
- Cyfrannu at gysylltedd cynefinoedd, gan esgor ar fuddion ehangach yn gysylltiedig â bioamrywiaeth,
- Creu ecosystemau lleol amrywiol, hunangynhaliol a chydnerth,

A, thrwy roi sylw i'r canlynol:

- Y rhestr o gynefinoedd sydd o bwysigrwydd pennaf i Gymru, a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016,
- Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan CNC, ac
- Unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n trafod yr holl ardal lle mae'r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau, neu ran o'r ardal honno.

Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS (gweler Safon S5 - Bioamrywiaeth) yn creu'r fframwaith ar gyfer gwerthusiad yr SAB o'r cynllun SuDS ac yn nodi sut y dylid dylunio SuDS i sicrhau'r budd mwyaf o ran bioamrywiaeth.

3.17 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r Nodau Llesiant?

Mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus weithio tuag at gyflawni'r 7 Nod Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Bydd SuDS wedi'u dylunio i gydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau llesiant er mwyn creu cymunedau cydlynus, cydnerth ac iachach.

Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS (gweler yn arbennig Safon S4 - Amwynder a Safon S5 - Bioamrywiaeth) yn creu'r fframwaith ar gyfer gwerthusiad yr SAB o'r cynllun SuDS ac yn nodi sut y dylid dylunio SuDS i sicrhau'r buddion lluosog mwyaf i bobl a natur.

3.18 Sut mae cymeradwyaeth yr SAB yn cyd-fynd â Chyfarwyddebau Ansawdd Dŵr?

Mae'n rhaid rheoli gollyngiadau dŵr wyneb i liniaru eu heffaith ar yr amgylchedd sy'n eu derbyn, felly bydd angen ystyried cynlluniau rheoli basn afon perthnasol wrth eu dylunio.

Yn yr un modd â systemau draenio confensiynol, mae'n rhaid i SuDS fodloni gofynion Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr a'r Epil Gyfarwyddeb Dŵr Daear sy'n anelu i warchod, gwella ac adfer cyrff dŵr wyneb a dŵr daear.

Adran 4: Dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau dŵr wyneb

4.1 Beth yw'r gofynion perthnasol ar gyfer SuDS gorfodol?

Ar y cyfle cyntaf yng nghanam cysyniadol y datblygiad newydd, dylai'r datblygwr integreiddio'r gofynion perthnasol ar gyfer SuDS gorfodol.

Mae'r gofynion perthnasol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw SuDS gorfodol wedi'u nodi yn y [Safonau Statudol ar gyfer SuDS](#). Dylid ystyried y rhain ochr y ochr â deddfwriaeth a rheoliadau presennol ar raddfa genedlaethol ac ar raddfa'r UE, ac unrhyw bolisiau a fabwysiadwyd yn lleol gan yr ACLI a'r ALILIA.

Dyma rai o gyfarwyddebau perthnasol yr UE:

- **Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE**, a'r Epil Gyfarwyddeb Dŵr Daear. Yn yr un modd â draeniau traddodiadol, mae'n rhaid i SuDS hefyd fodloni gofynion sy'n anelu i warchod, gwella ac adfer cyrff dŵr wyneb a dŵr daear. Y mae hefyd yn galluogi defnyddio SuDS mewn cynlluniau rheoli basn afon.
- Mae **Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yr UE** yn gwarchod yr amgylchedd rhag effeithiau niweidiol gollyngiadau dŵr gwastraff trefol ac yn trafod, ymhlith pethau eraill, casglu, trin a gollwng dŵr gwastraff domestig.
- Mae **Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi yr UE** yn gofyn bod dŵr ymdrochi poblogaidd mewn dyfroedd croyw ac arfordirol yn bodloni meini prawf ansawdd dŵr.
- Mae **Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE** yn ei gwneud hi'n ofynnol i asesu'r perygl o lifogydd yn gysylltiedig â phob cwrs dŵr a morlin, mapio ehangder y perygl a gweithredu mesurau digonol a chydgyssylltiedig i leihau'r perygl hwnnw.

Mae deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol perthnasol yn cynnwys:

- **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**, sy'n cynnwys Atodlen 3 a darpariaethau eraill ar gyfer draenio cynaliadwy.
- Mae **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**, Adran 2, yn gorfodi dyletswyddau sy'n gofyn am 'ddatblygu cynaliadwy' sy'n gyson â nodweddion SuDS ar ddatblygiadau newydd. Y mae hefyd yn gwneud cwmnïau dŵr yn ymgylgoreion statudol ar ddatblygiadau newydd yn rhan o'r broses gynllunio.
- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, yn pennu nodau llesiant ac egwyddorion 'datblygu cynaliadwy'.
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**. O dan Adran 6, mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth arfer ei swyddogaethau (fel cymeradwyo a mabwysiadu SuDS).

- Amcanion **Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**, sy'n cynghori ar faterion yn gysylltiedig â'r holl seilwaith economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys rheoli draenio, dŵr, carthion a llifogydd.

Dyma rai rheoliadau a pholisïau lleol perthnasol:

- **Strategaethau rheoli perygl llifogydd**, mae'n ofynnol i ALILIA lunio Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ar gyfer ei ardal. Gall SuDS chwarae rhan bwysig a sylweddol er mwyn helpu i leihau perygl llifogydd a chefnogi trefniadau i reoli perygl llifogydd. Bydd [y Map Cyngor Datblygu](#) o gymorth i nodi safleoedd a allai fod mewn perygl o lifogydd o afonydd a'r môr. Yn yr ardaloedd hyn, mae'n ofynnol i ddatblygwyr gyflwyno **Asesiad Canlyniadau Llifogydd** i ymdrin â'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig.
- Mae **Nodyn Cyngor Technegol (TAN15)**, yn rhoi canllawiau sy'n ategu'r polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru o ran datblygu a llifogydd. Mae'n nodi'r gofynion o ran defnyddio Mapiau Cyngor Datblygu, ac i ddatblygwyr gyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd er mwyn ymdrin â'r peryglon yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig.
- Mae **Rheoliadau Adeiladu 2010, Dogfen Gymeradwy H** (draenio a gwaredu gwastraff) yn rhoi canllawiau ar fodloni'r gofynion technegol yn gysylltiedig â draenio dŵr wyneb. Bydd y rhain yn parhau i fod yn berthnasol o fewn ffiniau'r eiddo.
- Gall **polisïau a fabwysiedir yn lleol** hefyd gynnwys gofynion lleol penodol a bennir gan yr SAB a'r ACLI.

4.2 **Sut mae'r Safonau SuDS Statudol yn gweithio, a beth y mae angen i ddatblygwyr ei wneud i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r safonau hynny?**

Nod y [Safonau Statudol ar gyfer SuDS](#) yw sicrhau bod cynlluniau draenio effeithiol a chydymffurfiol yn cael eu darparu, er mwyn gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Yn eu cais i'r SAB, bydd angen i ddatblygwyr ddangos sut mae'r cynllun draenio dŵr wyneb a gynigir ar gyfer y safle yn cydymffurfio â'r gofynion gorfodol a ganlyn:

Egwyddorion ar gyfer Cynlluniau SuDS⁶

Mae'n rhaid defnyddio'r Egwyddorion lefel uchel hyn yn sail wrth ddylunio cynlluniau SuDS er mwyn bodloni'r Safonau.

Er mwyn cydymffurfio â'r Safonau, bydd angen i ddatblygwyr ddangos sut maent wedi cymhwyso'r egwyddorion i ddyluniad y cynllun SuDS arfaethedig, neu gyfiawnhau unrhyw achos o fynd yn groes i'r egwyddorion hynny.

Safon Hierarchaeth 1 (S1), sydd hefyd yn cynnwys Lefelau Blaenoriaeth o 1 i 5⁷

⁶ Tudalen 7 o'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS

⁷ Tudalen 8 i 18 o'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS

Mae'n rhaid defnyddio Safon S1 i ddewis cyrchfan dŵr ffo wyneb i'r cynllun SuDS arfaethedig, ar sail blaenoriaeth. Y nod yw sicrhau bod dŵr ffo yn cael ei drin fel adnodd a'i reoli mewn modd sy'n lleihau i'r eithaf unrhyw effaith negyddol yn sgil y datblygiad newydd ar berygl llifogydd a'r amgylchedd

Er mwyn cydymffurfio â'r Safonau, bydd angen i ddatblygwyr ddangos sut maent wedi cymhwyso'r meini prawf hierarchaeth o'r Lefelau blaenoriaeth 1, 2 a 3 a ffafrir (casglu dŵr wyneb i'w ddefnyddio, ymdreiddio i'r tir, gollwng i gorff dŵr wyneb). A beth yw'r amgylchiadau eithriadol os cynigir Lefelau blaenoriaeth 4 neu 5 sy'n cael eu ffafrio leiaf (gollwng i system ddraenio neu garthffos gyfun).

Gallai gwahanol lefelau fod yn briodol ar gyfer gwahanol rannau o'r safle.

Safonau Sefydlog, sydd yn dechrau ar Safon 2 (S2) hyd at Safon 6 (S6)⁸

Mae Safonau S2 i S6 yn nodi'r meini prawf dylunio gofynnol y mae'n rhaid i'r holl SuDS eu bodloni, a'r modd y dylid adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu SuDS.

I gydymffurfio â'r Safonau, bydd angen i ddatblygwyr ddangos sut mae'r cynllun SuDS arfaethedig yn bodloni'r meini prawf ym mhob un o'r Safonau sefydlog o S2 i S6. Nid oes unrhyw esemptiadau na lefelau blaenoriaeth.

4.3 Pa wybodaeth ddefnyddiol ychwanegol sydd ar gael am SuDS?

Darperir cyfeiriadau ychwanegol a ffynonellau gwybodaeth defnyddiol yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS⁹.

Gellir defnyddio'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS ar y cyd â [Llawlyfr SuDS CIRIA](#), dogfen dechnegol allweddol ar y defnydd o SuDS.

Mae astudiaethau achos sydd ar gael ar [wefan Susdrain CIRIA](#) yn rhoi nifer o enghreifftiau o fanylion prosiect SuDS. Ceir offeryn defnyddiol i hidlo'r rheiny yn ôl cydran a'r math o ddatblygiad.

Mae nifer o astudiaethau achos ar [wefan Susdrain CIRIA wedi cael eu hadolygu gan gymheiriaid](#). Mae'r rhain yn rhoi nifer o enghreifftiau o'r modd gweithredwyd cynlluniau SuDS yn llwyddiannus, gan wella'r amgylchedd adeiledig a naturiol mewn datblygiadau graddfa fach a graddfa fawr sy'n cynnwys adeiladau newydd - enghreifftiau sy'n destun ysbrydoliaeth wirioneddol

4.4 A ellir dechrau gwaith adeiladu ar gyfer y datblygiad, cyn neu heb dderbyn cymeradwyaeth yr SAB?

Na ellir. O 7 Ionawr 2019 ymlaen, bydd angen SuDS ar gyfer dŵr wyneb ym mhob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag 1 tŷ annedd, neu lle bo'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy (ac eithrio lle bo esemptiad penodol neu drefniadau trosiannol yn berthnasol, sydd hefyd wedi'u rhestru yn y cwestiynau cyffredin hyn).

⁸ Tudalen 18 i 46 o'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS

⁹Gweler tudalen 62 o'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS.

O'r dyddiad hwn ymlaen, bydd yn rhaid dylunio ac adeiladu SuDS ar ddatblygiadau newydd yn unol â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, a bydd yn rhaid i Gynlluniau SuDS fod wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu yn ei rôl SAB, cyn dechrau **unrhyw waith adeiladu ar y datblygiad**.

4.5 Ym mha gam y dylid trafod cynigion amlinellol?

Argymhellir yn gryf y dylai'r datblygwr gysylltu â'r SAB ar y cyfle cyntaf yn y cam dylunio i gynnal trafodaethau cyn ymgeisio.

Mae'n hollbwysig hefyd fod ACLI ac unrhyw ymgylchoreion statudol ac anstatudol eraill perthnasol a allai fod â buddiant yn cael eu cynnwys yn fuan yn y cam dylunio. Bydd yn helpu i leihau unrhyw oedi diangen wrth gymeradwyo SuDS a chychwyn adeiladu drwy sicrhau o'r cychwyn cyntaf fod datblygwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn ogystal â'r meini prawf dylunio SuDS ar gyfer y safle.

4.6 A gaiff SABs ac ymgylchoreion perthnasol godi tâl am gyngor cyn cyflwyno cais?

Dylai datblygwyr holi'r sefydliadau unigol dan sylw a oes rhaid talu am gyngor cyn ymgeisio. Er nad oes darpariaethau penodol ar gyfer taliadau o'r fath yn y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, mae'n bosibl y bydd sefydliadau draenio cynaliadwy wedi sefydlu eu trefniadau eu hunain.

4.7 Pa agweddau gweithdrefnol y gellid eu trafod cyn cyflwyno cais?

Efallai y bydd datblygwyr am drafod y materion gweithdrefnol a ganlyn â'r SAB cyn cyflwyno cais:

- Llenwi'r ffurflen gais SuDS, yr wybodaeth dechnegol y bydd angen i'r datblygwr ei chyflwyno gyda'r cais, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallai fod ar yr SAB ei hangen er mwyn bodloni gofynion lleol.
- A yw'r cais yn ymwneud â datblygiad sy'n destun Asesiad Effaith Amgylcheddol o dan ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref ai peidio. Os felly, 12 wythnos yn hytrach na'r 7 wythnos arferol fydd y terfyn amser i'r SAB wneud penderfyniad ynghylch y cais am gymeradwyaeth.
- Y ffi ymgeisio, y mae'n rhaid i'r datblygwr ei chyflwyno gyda'r cais SuDS (gweler: ffioedd y gall yr SAB eu codi, a restrir hefyd yn y cwestiynau cyffredin hyn).
- Yr ymgylchoreion statudol y bydd angen i'r SAB ymgynghori â hwy.
- Amodau y gallai'r SAB eu gosod yn gysylltiedig â'r gymeradwyaeth ar gyfer SuDS. Mae'r amodau'n galluogi'r SAB a'r datblygwr i sicrhau bod y system ddraenio yn cael ei hadeiladu'n unol â'r hyn a gymeradwywyd - bydd yr ymgeisydd naill ai'n cadw atynt neu bydd modd i'r SAB gymryd camau gorfodi.

(gweler: amodau'n gysylltiedig â chymeradwyo, sydd hefyd wedi'u rhestru yn y cwestiynau cyffredin hyn)

- Bondiau diffyg perfformiad y gall yr SAB ofyn amdanynt fel amod yn gysylltiedig â chymeradwyaeth er mwyn sicrhau bod gan yr SAB fodd ariannol i unioni SuDS sydd wedi'u hadeiladu'n wael neu'n anghyflawn. (gweler: bondiau diffyg perfformiad, sydd hefyd wedi'u rhestru yn y cwestiynau cyffredin hyn)
- Nifer yr arolygiadau a allai fod yn ofynnol gan yr SAB (Gweler: ffioedd y gall yr SAB eu codi, a restrir hefyd yn y cwestiynau cyffredin hyn).

4.8 Pa agweddau technegol perthnasol a allai gael eu trafod yn y cyfnod cyn ymgeisio?

Gall fod yn fuddiol i'r datblygwr, yr SAB, yr ACLI ac ymgynghorion perthnasol drafod materion technegol allweddol cyn cyflwyno cais i'r SAB.

Dylai datblygwyr anelu i ystyried a thrafod y materion a ganlyn yn fuan (nid rhestr bendant mo'r rhestr hon, ond gallai trafod y materion hyn fod o gymorth i sicrhau bod y dyluniad draenio yn fwy tebygol o fodloni'r meini prawf statudol perthnasol, ynghyd â gofynion polisi lleol, a dealltwriaeth ynghylch unrhyw gyfyngiadau penodol ar safleoedd, ac unrhyw ofynion yn gysylltiedig â gollyngiadau a chaniatâd):

Meini prawf perthnasol

- Y cynllun draenio cysyniadol a'i synergedd ag egwyddorion y Safonau Statudol ar gyfer SuDS.
- Yr hierarchaeth draenio a'r gyrchfan derfynol a gynigir ar gyfer y gollyngiad, ynghyd â'r dull a'r lleoliad gollwng (S1 yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS).
- Trafodaethau cychwynnol ar reolaethau hydrologig ar gyfer dŵr ffo wyneb, gwarchod rhag perygl llifogydd ac atal llygredd (S2 ac S3 yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS).
- Dylunio SuDS i gynyddu cyfleoedd am amwynder a bioamrywiaeth hyd yr eithaf (S4 a S5 yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS).
- Dylunio SuDS fel bo modd eu hadeiladu, eu cynnal a'u cadw a' gweithredu'n rhwydd ac yn ddiogel (S6 yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS).
- Anghenion cynnal a chadw yn y dyfodol, ystyried y cynllun cynnal a chadw arfaethedig a'r dull o'i ariannu hyd ddiwedd oes y datblygiad.

Polisi lleol

- Sut mae unrhyw ofynion polisi lleol gan yr SAB, yr ALILIA a'r ACLI wedi cael eu hintegreiddio i'r cynllun draenio cysyniadol.

- A oes trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal â'r ALILIA a'r ACLI, lle gellid bod angen ystyried materion yn rhan o'r Cynllun SuDS?

Cyfyngiadau ar y safle

- Y rhaglen ddatblygu a ragwelir ar gyfer y safle. A yw'r datblygiad yn ddatblygiad a gynhelir fesul cam, yn ddatblygiad untro neu'n ddatblygiad cronnus, ac a yw'n debygol o gynnwys datblygwyr lluosog? Os felly, efallai y bydd angen cynnal y Cynllun SuDS fesul cam.
- A nodwyd cyfyngiadau ar y safle oddi mewn ac oddi allan i'r datblygiad a allai effeithio ar y cynllun SuDS (a allai gynnwys materion yn gysylltiedig â daeareg y pridd, topograffi, dŵr daear ac ati)
- A gynigir gollwng y dŵr wyneb i gorff dŵr? Os felly, a gynhaliwyd trafodaethau ynghylch caniatâd i ollwng?

Gollyngiadau a chaniatâd

- A gynigir gollwng i ddraeniau priffyrdd a draen? Os felly, a gynhaliwyd trafodaethau â'r Awdurdod Priffyrdd perthnasol ynghylch rhyngweithio i reoli'r dŵr wyneb?
- A gynigir gollwng y dŵr wyneb i rwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus? Os felly, a gynhaliwyd trafodaethau â'r ymgymwrwr carthffosiaeth perthnasol?
- A yw'r cynigion yn cynnwys dŵr wyneb sy'n ymdreiddio i'r ddaear? Os felly, a gynhaliwyd trafodaethau â Chyfoeth Naturiol Cymru ac/neu'r cwmni dŵr perthnasol ynghylch perygl llygredd a dyrhaenau gwaelodol?
- A yw'n debygol y bydd angen unrhyw drefniadau draenio dros dro yn ystod y cam(au) adeiladu?

4.9 Pa wybodaeth dechnegol a allai fod yn berthnasol i'r cais SuDS

Yn dibynnu ar amodau lleol, efallai y bydd gan SAB gyfres benodol o ofynion er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch cais. Mae'n debygol y bydd angen yr wybodaeth ganlynol, ond dylai datblygwyr holi'r SAB perthnasol ar gyfer yr ardal am restr o'r holl wybodaeth y mae angen ei chyflwyno gyda'r cais:

Arolygon

- Arolwg topograffig o'r safle, gan gynnwys croestoriad o unrhyw gyrsgiau dŵr cyfagos hyd at bellter priodol i fyny ac i lawr yr afon o'r ollyngfa os yw'n briodol (fel y cytunir â'r SAB).
- Manylion am osodiad, system ddraenio a dalgylchoedd presennol y safle, os yw'n briodol.
- Manylion y daeareg a'r hydroddaeareg bresennol.

- Archwiliadau tir (gan gynnwys dŵr daear a halogiad) a phroffion ymdreiddio, lle bo'n briodol.
- Arolygon o unrhyw systemau draenio neu gyrff dŵr presennol y gallai'r SuDS ollwng dŵr iddynt.

Cynlluniau

- Cynllun manwl o osodiad y system ddraenio arfaethedig gan gynnwys dalgylchoedd, ar raddfa a nodir (fel y cytunir â'r SAB) a chyda phwynt Gogleddol.
- Croestoriadau a chroestoriadau hir o'r system ddraenio arfaethedig, gan gynnwys ardaloedd anhydraidd (ar raddfa y cytunir arni â'r SAB)
- Cynllun ar gyfer rheoli adeiladu, i gynnwys: cynnal a chadw'r system a'i threfnu fesul cam (gan gynnwys trefniadau mynediad, nodweddion gweithredol a gofynion ynni ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw'r holl systemau arfaethedig) a manylion unrhyw waith sydd ei angen oddi ar y safle, ynghyd ag unrhyw ganiatadau ac unrhyw effeithiau angenrheidiol.
- Cynllun iechyd a diogelwch, os yw'n briodol, sy'n ystyried ardaloedd o ddŵr agored a mynediad i fannau cyfyng.
- Manylion adeiladu addas, a manylion cysylltiadau (gan gynnwys dyfeisiau rheoli llif) i gyrsiau dŵr, carthffosydd, carthffosydd dŵr wyneb cyhoeddus, draeniau a systemau draenio priffyrdd.
- Cynllun plannu tirweddol os cynigir system ddraenio sy'n cynnwys llystyfiant.
- Cynllun cynnal a chadw arfaethedig sy'n nodi sut i gynnal a chadw'r system ddraenio lawn a'r dull o ariannu hynny hyd ddiwedd yr oes dylunio ar ôl gorffen adeiladu (boed y system wedi'i mabwysiadu neu beidio).

Asesiadau

- Asesiad sy'n dangos ardaloedd llifogydd ar gyfer y cyfnod dychwelyd 1 mewn 100 mlynedd, pan fo'r system ar gapasiti llawn a chan ddangos llwybrau llif ar gyfer y dyluniad a gormodiant.
- Cyfrifiadau dylunio llawn a pharamedrau dylunio i ddangos cydymffurfiaeth â'r meini prawf dylunio ar gyfer y safle.
- Meini prawf dylunio yn gysylltiedig â/o broffion halogi'r tir ac ymdreiddio, asesiadau dŵr daear a sefydlogrwydd y pridd.
- Unrhyw nodweddion draenio neu ollyngfeydd dros dro fydd eu hangen yn ystod y gwaith adeiladu.

Tystiolaeth ac adroddiadau

- Cadarnhau caniatadau i ollwng.
- Cadarnhau gollyngfeydd.
- Capasiti gollwng.
- Cytundebau â pherchnogion ac awdurdodau eraill.

4.10 Pa wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r cynllun cynnal a chadw a'r trefniadau i'w ariannu?

Disgwylir i'r datblygwr gyflwyno cynllun cynnal a chadw arfaethedig gyda'r cais SuDS a dull o ariannu'r dyluniad hyd ddiwedd ei oes.

Nodir yr egwyddor ar gyfer hyn yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS. Yn ogystal â hyn, mae gan yr SAB ddisgresiwn eang i osod amodau yn gysylltiedig â chymeradwyaeth, y gellir eu defnyddio i sicrhau y bydd y systemau draenio cynaliadwy yn cael eu cynnal a'u cadw hyd ddiwedd oes y datblygiad.

Yn dibynnu ar amodau lleol, efallai y bydd gan SAB gyfres benodol o ofynion. Mae'n debygol y bydd angen yr wybodaeth ganlynol, ond dylai datblygwyr holi SAB yr ardal am restr swyddogol o'r holl wybodaeth sydd ei hangen:

- Y math o weithgareddau cynnal a chadw y mae angen eu cyflawni er mwyn sicrhau bod y system ddraenio yn gweithredu'n unol â'i dyluniad i reoli perygl llifogydd a sicrhau buddion lluosog,
- Amllder disgwylidig y gweithgareddau hynny,
- Amcangyfrif o hyd y gweithgareddau hynny,
- Unrhyw beiriannau a chyfarpar sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgareddau hynny,
- Amcangyfrif o'r costau er mwyn cwblhau'r gweithgareddau hynny,
- Cynllun o'r safle sy'n dangos ardaloedd cynnal a chadw, llwybrau mynediad a lleoliadau lle rhagwelir y bydd angen cyflawni gweithgareddau cynnal a chadw,
- Datganiad yn disgrifio unrhyw swyddogaeth eilaidd (ee, ardal hamdden) uwch ben neu oddi mewn i'r gydran SuDS a manylion yn disgrifio sut y bwriedir rheoli'r swyddogaeth hon, a phwy fydd yn gwneud hynny.

Efallai y bydd yr SAB yn dewis dibynnu ar bwerau sydd eisoes ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol er mwyn sicrhau cytundebau i gefnogi trefniadau cynnal a chadw, gan gynnwys unrhyw swm gohiriedig neu arian cynnal a chadw.

4.11 Pa ganiatadau gollwng a allai fod yn berthnasol, a sut y dylid cyflwyno tystiolaeth ohonynt?

Bydd angen i'r datblygwr sicrhau'r caniatadau perthnasol ar gyfer y cynlluniau arfaethedig i ddraenio dŵr wyneb. Er nad rhestr bendant mo'r rhestr hon, dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol yn arbennig:

- A gynigir gollwng y dŵr wyneb i gorff dŵr? Os felly, a gynhaliwyd trafodaethau ynghylch caniatâd i ollwng?
- A gynigir gollwng i ddraeniau priffyrdd a draen? Os felly, a gynhaliwyd trafodaethau â'r Awdurdod Priffyrdd perthnasol ynghylch rhyngweithio i reoli'r dŵr wyneb?
- A gynigir gollwng y dŵr wyneb i rwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus? Os felly, a gynhaliwyd trafodaethau â'r ymgymwrwr carthffosiaeth perthnasol?
- A yw'r cynigion yn cynnwys dŵr wyneb sy'n ymdreiddio i'r ddaear? Os felly, a gynhaliwyd trafodaethau â Chyfoeth Naturiol Cymru ac/neu'r cwmni dŵr perthnasol ynghylch perygl llygredd a dyfrhaenau gwaelodol?

Yn dibynnu ar amodau lleol, efallai y bydd gan SAB gyfres benodol o ofynion er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch cais. Mae'n debygol y bydd angen y dystiolaeth a'r adroddiadau canlynol yn gysylltiedig â chaniatadau gollwng, ond dylai datblygwyr holi'r SAB perthnasol ar gyfer yr ardal cyn cyflwyno cais:

- Cadarnhau caniatadau i ollwng.
- Cadarnhau gollyngfeydd.
- Capasiti gollwng.
- Cytundebau â pherchnogion ac awdurdodau eraill.

4.12 Sut y bydd y SuDS mwyaf priodol ac addas ar gyfer safle yn cael eu cymeradwyo?

Mae'n rhaid i gais SuDS sydd i'w gymeradwyo gan yr SAB **fod wedi'i ddylunio mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS**. Bydd yr SAB yn gwerthuso'r cais SuDS er mwyn penderfynu a fydd y system ddraenio arfaethedig yn cydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS, a pha amodau y gellid bod angen eu gosod, os o gwbl, yn gysylltiedig â chymeradwyaeth yr SAB, er mwyn sicrhau bod y cynllun SuDS yn cael ei adeiladu ac yn gweithredu fel y cymeradwywyd yn y cais.

Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS yn mabwysiadu ymagwedd hierarchaidd at ollyngfeydd dŵr ffo ac yn pennu meini prawf ar gyfer cyfradd a chyfaint y dŵr ffo fydd yn galluogi hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau safleoedd penodol, fel bo modd adeiladu'r datrysiad draenio mwyaf ymarferol a chost-effeithiol.

Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS hefyd yn nodi sut y dylid dylunio'r SuDS er mwyn cynyddu amwynder (gweler Safon S4) a bioamrywiaeth (gweler Safon S5) hyd

yr eithaf. Mae'r Safonau SuDS yn annog technegau SuDS fel gwlyptiroedd, pantiau, pyllau a systemau llystyfiant a all greu cyfleoedd am gynefinoedd a bywyd gwyllt, ac a all fod o gymorth i gynyddu mynediad at fannau glas cyffredin i'r gymuned.

Dylai datblygwyr gysylltu â'r SAB yn y camau cynharaf wrth ddylunio'r safle fel bo modd i'r SAB gynorthwyo i lunio meini prawf dylunio sy'n cydymffurfio â gofynion SuDS ar gyfer y safle.

4.13 Pa ystyriaeth a roddir i gynlluniau SuDS fforddiadwy a chost-efeithiol?

At ei gilydd, dengys tystiolaeth fod SuDS yn rhatach i'w hadeiladu a'u gweithredu na draeniau confensiynol. Ar draws y 110,000 o gartrefi newydd a gynlluniwyd i Gymru erbyn 2021, gallai defnyddio SuDS tirweddol ar ddatblygiadau newydd sy'n cydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS arbed bron £1 biliwn mewn costau adeiladu cyfalaf, a chynhyrchu buddion o fwy na £20 miliwn y flwyddyn¹⁰.

Yn amlwg, mae costau a buddion yn amrywio yn ôl y safle datblygu a'r mesurau a ddefnyddir ar gyfer systemau draenio, ond defnyddir prawf fforddiadwyedd i gapio'r rhain yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS:

- Un o'r prif nodau ar gyfer SuDS cydymffurfiol (gweler yr Egwyddorion yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS) yw y dylai cynlluniau fod yn fforddiadwy, gan ystyried costau adeiladu a chynnal a chadw hirdymor, a'r buddion amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynllun SuDS.
- Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS hefyd yn nodi (gweler Safon S6) y dylid dylunio holl elfennau'r cynllun SuDS fel bo modd eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw yn gost-efeithiol.

4.14 Beth os caiff y dyluniad arfaethedig ei addasu cyn derbyn cymeradwyaeth yr SAB?

Pan fo cais wedi'i addasu drwy gytundeb rhwng yr SAB a'r datblygwr cyn i'r SAB wneud penderfyniad yn ei gylich, ni chaiff yr SAB godi ffi yn gysylltiedig â'r addasiad cytunedig.

4.15 Beth os bydd angen addasu'r dyluniad a gymeradwywyd eisoes gan yr SAB?

Gellir cyflwyno cais i'r SAB yn gofyn am gael amrywio cymeradwyaeth. Caiff yr SAB godi ffi am bob cais, ac am bob cais amgen ar gyfer y system ddraenio a gyflwynir ar ffurf cais sengl (mae'r ffi ar gyfer ceisiadau sy'n cynnwys cynigion amgen wedi'i phennu yn y rheoliadau, a hefyd wedi'i rhestru yn y cwestiynau cyffredin hyn).

4.16 Pa arolygiadau a allai fod yn ofynnol gan yr SAB?

¹⁰ Gweler Gweithredu systemau draenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd, Dadansoddiad o'r dystiolaeth gan gynnwys costau a buddion adeiladu a mabwysiadu SuDS, adroddiad i Lywodraeth Cymru, Ionawr 2017

Efallai y bydd yr SAB yn gofyn am gynnal arolygiadau yn ystod gwaith i adeiladu'r system ddraenio, ac ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw.

Bydd yn rhaid i'r SAB nodi arolygiadau ar ffurf amod yn gysylltiedig â'r gymeradwyaeth.

Caiff yr SAB godi ffi am bob arolygiad (Gweler: ffioedd, hefyd wedi'u rhestru yn y cwestiynau cyffredin hyn).

4.17 A waherddir cysylltiad â charthffos fudr neu gyfun?

Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS yn cydnabod bod angen osgoi llifogydd dŵr budr ac, yn unol â hynny, **yn gwahardd cysylltu SuDS â charthffos fudr**.

Un o brif ddisgwyliadau'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS yw y bydd defnyddio SuDS effeithiol sy'n cydymffurfio â'r Safonau ar ddatblygiadau newydd yn lleihau llif dŵr ffo i'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus.

Os caiff gollyngiad i garthffos gyfun ei gynnig yn rhan o'r cynlluniau draenio, bydd yn rhaid rhoi tystiolaeth i ddangos mai'r dewis olaf yw hynny. Er enghraifft, os nad oes cyfleoedd ar gael i ymdreiddio na gollwng i gwrs dŵr, neu mewn ardaloedd sy'n cael eu hailddatblygu lle na cheir unrhyw garthfositydd ar wahân ar gyfer dŵr wyneb.

Ar gyfer unrhyw gysylltiad â charthffos, mae'n bosibl y bydd angen cytundebau Adran 104 (mabwysiadu) ac Adran 106 (cysylltu) Deddf Diwydiant Dŵr 1991 gan ymgwymerwr carthffosiaeth. O dan y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, ni chaiff y datblygwr ond arfer yr hawl i gysylltu o dan Adran 106a os yw'r SAB wedi cymeradwyo'r cynllun SuDS arfaethedig, a bod y dyluniad cymeradwy yn cynnwys y cysylltiad arfaethedig â'r garthffos.

4.18 Sut mae'r hawl i gysylltu dŵr wyneb i'r rhwydwaith carthffositydd cyhoeddus wedi newid?

Mae'r hawl ddiodyn i gysylltu dŵr wyneb â'r rhwydwaith cyhoeddus wedi cael ei diwygio i wneud hynny'n amodol ar dderbyn cymeradwyaeth oddi wrth yr SAB fod y system ddraenio arfaethedig yn bodloni Safonau Statudol SuDS ar gyfer draenio cynaliadwy.

O dan y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, ni chaiff yr hawl i gysylltu ond ei harfer gan y datblygwr os yw'r SAB wedi cymeradwyo'r cynllun SuDS arfaethedig, ac os yw'r dyluniad cymeradwy yn cynnwys y cysylltiad arfaethedig â'r garthffos.

Os yw'r datblygwr am gysylltu system dŵr wyneb â'r garthffos gyhoeddus, mae'n **rhaid** iddo nodi hynny'n glir yn y cynigion a gyflwynir ganddo i'w cymeradwyo gan yr SAB.

Dylai datblygwyr a'r SAB gynnwys ymgwymerwyr carthffosiaeth ar y cyfle cyntaf yn y camau cyn ymgeisio. Bydd hyn yn rhoi safbwynt cyfannol i'r datblygwyr o ddyluniad systemau draenio dŵr budr a dŵr wyneb. Mae trafodaethau o'r fath yn bwysig os

bydd y dŵr wyneb yn cael ei ollwng i'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus ar unrhyw bryd.

Ni chaiff yr ymgwymerwr carthffosiaeth wrthod cysylltu ar y sail bod y system ddraenio yn amsugno dŵr o fwy nag un gyfres o fangreoeedd, o garthffos neu o dir nad yw'n eiddo nac yn garthffos (gweler adran 106A(3) o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991).

4.19 Sut mae'r hawl i gysylltu dŵr wyneb o ffyrdd a gynhelir gan y cyhoedd â'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus wedi newid?

Mae darpariaethau sy'n caniatáu i ymgwymerwyr carthffosiaeth ac awdurdodau priffyrdd ymrwymo i gytundeb i ddefnyddio carthffosydd y naill a'r llall er mwyn draenio dŵr o briffyrdd (ond lle na cheir cysylltiadau 3^{ydd} parti) wedi newid.

O dan ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, mae'n rhaid i ymgwymerwr carthffosiaeth dderbyn unrhyw ddŵr wyneb o ffordd a gynhelir yn gyhoeddus, sydd yn unol â'r system ddraenio a gymeradwywyd gan yr SAB fel system sy'n cydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS.

Mae hyn yn golygu, ar ôl derbyn cymeradwyaeth SuDS ar gyfer system ddraenio, sy'n draenio dŵr ar hyd draen priffyrdd i garthffos gyhoeddus, ni chaiff yr ymgwymerwr carthffosiaeth wrthod derbyn unrhyw gysylltiad o ddraen y ffordd neu'r briffordd sydd yn rhan o'r cynllun draenio a gymeradwywyd gan yr SAB.

Os bwriedir i'r dŵr wyneb lifo i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus ar unrhyw adeg, mae'n hanfodol bod datblygwyr a'r SAB yn cynnwys ymgwymerwyr carthffosiaeth ar y cyfle cyntaf yn y camau cyn ymgeisio.

4.20 A oes gan yr SAB bŵer i brynu tir yn orfodol?

Nid yw'r ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy yn rhoi unrhyw bwerau penodol i'r SAB brynu tir yn orfodol.

Fodd bynnag, efallai y bydd yr SAB yn gallu dibynnu ar bwerau sydd eisoes ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth draenio tir¹¹ i'w gwneud hi'n bosibl i adeiladu pibellau sy'n rhan o'r system ddraenio a chaffael hawddfreintiau yn orfodol. Ni fyddai'r SAB ond yn gallu dibynnu ar yr pwerau hyn pe bai'r amodau, sydd hefyd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth ar ddraenio tir, wedi'u bodloni.

¹¹ Gweler Adran 14 o Ddeddf Draenio Tir 1991.

4.21 A oes gan y datblygwr bwerau i gael mynediad i dir trydydd parti?

Nid yw'r ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy yn rhoi unrhyw bwerau penodol i ddatblygwyr gael mynediad i dir trydydd parti.

Fodd bynnag os bydd ar ddatblygwr angen mynediad dros dir trydydd parti (yn yr un modd â chyn gweithredu SuDS gorfodol, er mwyn cysylltu ei ddŵr ffo â charthffosydd cyhoeddus neu gyrff dŵr cyfagos) bydd angen iddo gysylltu â'r trydydd partion hynny o hyd i sicrhau'r hawliau eiddo angenrheidiol

Os na fydd datblygwyr yn gallu dod i gytundeb â thrydydd partion er mwyn sicrhau'r hawliau eiddo angenrheidiol, bydd yr un math o opsiynau a fodolai cyn cychwyn y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy yn parhau i fod ar gael iddynt.

4.22 Pwy sy'n cynnal a chadw SuDS cyn i'r SAB eu mabwysiadu?

Cyn mabwysiadu, y datblygwr sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r system ddraenio gymeradwy. Efallai y bydd yr SAB yn dymuno ystyried hyn cyn rhoi cymeradwyaeth wrth bennu unrhyw fond ar gyfer diffyg perfformiad.

4.23 Pwy sy'n cynnal SuDS sydd wrth ymyl neu mewn ffordd a gynhelir gan y cyhoedd?

Mae'r awdurdodau priffyrdd eisoes yn gyfrifol am ddraenio a chynnal a chadw ffyrdd a gynhelir gan y cyhoedd. O dan y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy, mae'r SAB wedi'i esemptio rhag mabwysiadu unrhyw ran o SuDS sydd yn ffordd a gynhelir yn gyhoeddus.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod cynnal a chadw (hy, yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol) weithredu'n unol ag unrhyw gynllun draenio a chynnal a chadw, fel y cafodd ei gymeradwyo gan yr SAB, ac yn unol â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS.

4.24 Pwy sy'n cynnal a chadw SuDS mewn ffordd breifat?

Mae'n ofynnol i'r SAB fabwysiadu SuDS cymeradwy mewn ffyrdd preifat, neu sy'n cydreddeg â ffyrdd preifat, sy'n gwasanaethu mwy nag un annedd.

Cyn mabwysiadu, y datblygwr sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r SuDS. Efallai y bydd yr SAB yn dymuno ystyried hyn cyn rhoi cymeradwyaeth wrth bennu unrhyw fond ar gyfer diffyg perfformiad.

Ar ôl eu mabwysiadu, mae'r SAB yn gyfrifol am gynnal a chadw'r SuDS. Os bydd y ffordd yn troi'n ffordd a gynhelir yn gyhoeddus yn y dyfodol, yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol fydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw.

4.25 Sut y cynhelir SuDS os na cheir mynediad rhwydd atynt?

Mae'r defnydd gorfodol o SuDS yn berthnasol i waith datblygu newydd ac i waith ailddatblygu, a dylai'r datblygwr a'r SAB anelu i sicrhau cytundeb ynghylch materion fel sicrhau mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyn derbyn cymeradwyaeth yr SAB.

Os yw'r SAB yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r safle i gynnal a chadw SuDS sydd wedi'i mabwysiadu, gall ddibynnu ar bwerau sydd eisoes ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth draenio tir¹² er mwyn cael mynediad.

¹² Gweler Adran 14 o Ddeddf Draenio Tir 1991.

Adran 5: Ymgynghoreion statudol ac anstatudol

5.1 Pwy yw ymgynghoreion statudol yr SAB a beth yw eu rôl?

Cyn dod i benderfyniad ynghylch cais, bydd yn rhaid i'r SAB ymgynghori ag ymgynghoreion statudol sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy. Rhoddwyd rôl statudol i'r cyrff hyn ym mhroses gymeradwyo'r SAB i gydnabod effaith bosibl gollyngiadau draenio dŵr wyneb ar eu hasedau, neu ar fuddiannau sydd oddi mewn i'w cwmpas rheoleiddio.

Caiff y gofyniad i ymgynghori ag un neu fwy o'r ymgynghoreion a ganlyn ei sbarduno os gallai cais am gymeradwyaeth effeithio ar yr ymgynghorai dan sylw:

- **Ymgwymerwr Carthffosiaeth** y garthffos gyhoeddus y cynigir cysylltu'r system ddraenio â hi.
- **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** os yw'r system ddraenio a gynigir yn golygu gollwng dŵr i gwrs dŵr neu ddŵr daear, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Bydd gan CNC hefyd fuddiant os bydd y system ddraenio yn gollwng dŵr i'r ddaear neu i gorff dŵr sensitif.
- **Awdurdod Priffyrdd Perthnasol** ar gyfer ffordd a system ddraenio gysylltiedig y gallai'r system ddraenio a gynigir effeithio arnynt.
- **Bwrdd Draenio Mewnol (CNC)** lle bo'r system ddraenio a gynigir yn golygu gollwng dŵr i gwrs dŵr cyffredin oddi mewn i ardal y bwrdd,
- boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Er eglurder, efallai y bydd ymgynghoreion statudol yn dymuno cynhyrchu gwybodaeth atodol am faterion penodol y byddent yn disgwyl derbyn ymgynghoriad yn eu cylch, a sefydlu meini prawf ynghylch effaith bosibl, lleoliad, cyrchfan a maint ceisiadau er mwyn rhoi'r flaenoriaeth i geisiadau sydd yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i'w buddiannau.

Dylai'r SAB ystyried sylwadau ymgynghoreion statudol fel ystyriaethau o bwys. Os yw'r ymgynghorai statudol yn codi gwrthwynebiad i'r cynigion, disgwylir i'r SAB, y datblygwr a'r ymgynghorai statudol ganfod dull ymarferol o ddatrys y sefyllfa.

Ar ôl i'r SAB wneud penderfyniad ynghylch y cais am gymeradwyaeth, bydd yn rhaid iddo hysbysu unrhyw ymgynghoreion y bu'n ymgynghori â hwy ynghylch y penderfyniad cymeradwyo.

5.2 Ym mha gam y dylai datblygwyr gynnwys ymgynghoreion statudol?

Anogir ymgynghoreion statudol i gymryd rhan mewn trafodaethau cyn ymgeisio â'r datblygwr. Er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen yn ddiweddarach yn y broses gymeradwyo, dylai datblygwyr anelu i gynnwys ymgynghoreion statudol ynghyd â rhanddeiliaid eraill allweddol ar y cyfle cyntaf yn y camau cyn ymgeisio.

Bydd ymgysylltu'n fuan ag ymgymerwyr carthffosiaeth yn arbennig yn galluogi i ddatblygwyr edrych ar ddyluniad systemau draenio dŵr budr a dŵr wyneb mewn modd cyfannol.

5.3 Pa wybodaeth y dylai'r SAB ei hanfon at ymgynghorion statudol?

Er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen i broses gymeradwyo'r SAB, ac i ddibenion ymgynghori, bydd yr SAB am ystyried holl anghenion yr ymgynghorion statudol o ran gwybodaeth, a'r ffordd orau o rannu'r wybodaeth honno.

Os gallai'r cais SuDS gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar fuddiannau'r ymgynghorai statudol, disgwylir y dylai'r SAB, fel isafswm, ddarparu'r wybodaeth ganlynol i ymgynghorai statudol i ddibenion ymgynghori, neu'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad:

- copi o'r ffurflen gais sy'n ymwneud â chais perthnasol,
- cyfeirnod a bennwyd gan yr SAB ar gyfer y cais,
- unrhyw gynlluniau neu luniadau sy'n gysylltiedig â'r cais perthnasol;
- unrhyw gynigion ynghylch lle y gellir archwilio'r cais, a phryd y gellir gwneud hynny,
- unrhyw adroddiadau ac/neu wybodaeth ategol yn gysylltiedig â'r cais perthnasol a gyflwynir i'r SAB,
- ac unrhyw wybodaeth arall a ystyrir yn briodol gan yr SAB.

Wrth rannu gwybodaeth, bydd angen i'r SAB sicrhau, yn yr un modd ag unrhyw wasanaethau awdurdod lleol eraill, fod unrhyw systemau angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â GDPR wedi'u sefydlu.

5.4 Beth yw'r terfyn amser i ymgynghorion statudol ymateb i'r SAB?

Yn y rheoliadau ar gyfer draenio cynaliadwy, mae'n rhaid i ymgynghorion statudol ymateb i'r SAB o fewn tair wythnos, neu geisio sicrhau estyniad cytunedig. Caiff yr SAB anwybyddu unrhyw sylwadau a geir ar ôl y terfyn amser hwn, neu ar ôl unrhyw estyniad cytunedig.

5.5 Sut mae cyngor yr ymgynghorion statudol yn cyd-fynd â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS?

Mae'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS yn ofyniad gorfodol, ac mae'n ddyletswydd ar yr SAB i gydymffurfio â hwy wrth gymeradwyo, mabwysiadu neu gynnal a chadw SuDS.

Wrth roi cyngor, dylai ymgynghorion statudol ystyried yr Egwyddorion, y Safonau a'r Canllawiau yn y Safonau Statudol ar gyfer SuDS.

5.6 A all yr SAB anwybyddu cyngor gan ymgynghorai statudol?

Mae'r egwyddor wedi'i hen sefydlu y dylid cynnal ymgynghoriad mewn modd priodol er mwyn bodloni egwyddorion tegwch gweithdrefnol sydd yn rhan o gyfraith gwlad.

Os yw'r ymgynghorai statudol yn codi gwrthwynebiad i'r cynnig, byddem yn disgwyl i'r SAB, yr ymgynghorai a'r datblygwr ganfod dull ymarferol o ddatrys y sefyllfa.

Pe bai'r SAB yn penderfynu anwybyddu cyngor ymgynghorai statudol, byddai disgwyl iddo roi esboniad pam.

5.7 A gaiff ymgynghoreion statudol godi ffi am roi cyngor?

Nid oes dim yn y ddeddfwriaeth ar gyfer draenio cynaliadwy sydd yn galluogi ymgynghoreion statudol i godi ffi am gostau a achosir yn gysylltiedig â thrafodaethau cyn ymgeisio a chymeradwyaeth SuDS.

Fodd bynnag, dylai datblygwyr holi'r sefydliad dan sylw yn uniongyrchol oherwydd mae'n bosibl y bydd yn dal i allu codi ffioedd o dan drefniadau ar wahân.

5.8 A fydd yr SAB yn rhoi ad-daliad i ymgynghoreion statudol am unrhyw gostau a ysgwyddir?

Na fydd, nid oes darpariaethau i'r SAB ad-dalu ymgynghoreion statudol.

5.9 Pa ymgynghoriadau gwirfoddol a allai fod yn fuddiol?

Efallai y bydd datblygwyr a'r SAB yn dymuno ymgynghori ag ymgynghoreion anstatudol ychwanegol lle bo'n briodol. Wrth ymgynghori, dylai'r SAB anelu i wneud hynny o fewn yr un raddfa amser ag a wneir gydag ymgynghoreion statudol.

Bydd angen ystyried ymgynghoreion anstatudol a allai fod â buddiant fesul safle, ond gallai'r rhain gynnwys y canlynol, er enghraifft:

- SABs cyfagos
- ACLlau
- ALILIAau
- Adrannau ALI eraill (priffyrdd, rheoliadau adeiladu, parciau, hawliau tramwy cyhoeddus)
- Ymddiriedolaethau bywyd gwyllt
- RSPB
- Ymddiriedolaethau Afonydd
- Grwpiau cymunedol lleol
- Cynghorau cymuned a thref
- Perchnogion glannau afon

Adran 6: Proses ymgeisio SuDS

6.1 Beth yw'r broses ymgeisio?

Ceir siart lif sy'n crynhoi proses ymgeisio SuDS yn **Atodiad 1** i'r cwestiynau cyffredin hyn.

6.2 Beth ddylai datblygwyr ei wneud er mwyn cyflwyno cais?

Dylai datblygwyr:

- Gyfeirio at y **gofynion perthnasol** ar gyfer SuDS gorfodol.
- Cychwyn **trafodaethau cyn ymgeisio**,
- Sicrhau bod yr holl **wybodaeth sy'n berthnasol** i'r cais yn cael ei chasglu (gallai fod gan yr SAB ofynion penodol ynghylch yr wybodaeth y dylid ei chyflwyno gyda'r cais).
- Cwblhau **cais SuDS** (gallai fod gan yr SAB ofynion penodol yn gysylltiedig â'r ffurflen y dylid ei defnyddio er mwyn gwneud cais).
- **Cyfrifo'r ffi ymgeisio** y dylid ei chyflwyno gyda'r cais SuDS.

(Gweler y cwestiynau cyffredino ar bob un o'r materion penodol hyn sydd hefyd wedi'u rhestru yn y ddogfen hon.)

6.3 Beth y mae'n rhaid ei gyflwyno gyda'r cais?

Mae'n rhaid defnyddio'r ffurflen gais sy'n ofynnol gan yr SAB i gyflwyno'r cais, ac mae'n rhaid ei chyflwyno gydag unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan yr SAB.

Gallai cwestiynau cyffredin sy'n nodi'r **gofynion perthnasol** ac awgrymiadau ynghylch **gwybodaeth berthnasol** fod yn fuddiol, ond dylai datblygwyr holi'r SAB perthnasol ar gyfer yr ardal am gyngor swyddogol.

Mae'n rhaid cyflwyno'r ffi ymgeisio gywir gyda'r cais.

Dylid cyflwyno'r cais gyda chynllun cynnal a chadw arfaethedig a dull o ariannu'r cynllun hwnnw hyd ddiwedd oes y dyluniad.

6.4 Sut mae cyflwyno cais am gymeradwyaeth draenio i'r SAB?

Gellir cyflwyno cais draenio i'r SAB **naill ai** ar y cyd â'r cais cynllunio (cais "cyfun") **neu'n** uniongyrchol i'r SAB (cais "annibynnol").

- Lle bo angen caniatâd cynllunio hefyd, gall y datblygwr gyflwyno cais draenio **"wedi'i gyfuno"**, hynny yw, wedi'i gyflwyno drwy'r ACLI gyda'r cais

cynllunio. Bydd yr ACLI yn anfon y cais SuDS a'r ffi ymlaen i'r SAB er mwyn cael penderfyniad ynghylch y cais draenio. Dylai'r ACLI hysbysu'r datblygwr am benderfyniad yr SAB ynghylch y cais draenio.

- Gall y datblygwr gyflwyno cais draenio "**annibynnol**" yn uniongyrchol i'r SAB perthnasol. Gellir defnyddio'r llwybr hwn os nad oes angen caniatâd cynllunio, neu os yw'r datblygwr am gael cymeradwyaeth yr SAB cyn cyflwyno'r cais am ganiatâd cynllunio llawn.

6.5 Sut mae cael copi o'r ffurflen gais?

O'r 7 Ionawr 2019 ymlaen, bydd Gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio Cymru yn cynnwys dolen i ffurflen gais SAB ar gyfer cymeradwyaeth SuDS. Dylai datblygwyr hefyd gysylltu â'r SAB ar gyfer yr ardal er mwyn gwirio unrhyw ofynion lleol.

6.6 A oes angen caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer pob cais SuDS y mae angen cymeradwyaeth yr SAB arno.

Nac oes. Efallai na fydd angen caniatâd cynllunio yr ACLI ar gyfer ceisiadau adeiladu a chanddynt oblygiadau draenio y mae angen i'r SAB eu cymeradwyo, ee gan nad yw'r gwaith hwnnw'n gyfystyr â gwaith datblygu, neu os yw'n "ddatblygu a ganiateir".

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd datblygwr yn dymuno cytuno ar ddarpariaethau draenio ar gyfer datblygiad cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio. Gan hynny, ceir dau lwybr er mwyn cyflwyno cais i'r SAB, naill ai cais "annibynnol" neu gais "cyfunol", hy, cais a gyflwynir drwy'r ACLI gyda'r cais cynllunio.

6.7 Pa mor hir bydd hi'n cymryd i dderbyn cymeradwyaeth yr SAB?

O'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i gais dilys ddod i law'r SAB bydd yr SAB yn dod i benderfyniad yn ei gylch (cymeradwyo neu beidio) o fewn:

- 7 wythnos, neu
- 12 wythnos, os yw'r cais yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol o dan ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref.

Gall yr SAB a'r datblygwr gytuno i estyn y cyfnod cymeradwyo.

Os na fydd yr SAB yn dod i benderfyniad ynghylch cais o fewn y cyfnod perthnasol o amser, caiff yr ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad.

6.8 Pa ffioedd y caiff yr SAB eu codi?

Bydd yr SAB yn codi ffi a gyfrifir drwy ddefnyddio'r cyfraddau a nodir isod ar gyfer ceisiadau ac arolygiadau.

Caiff yr SAB hefyd ddewis dibynnu ar bwerau sydd ar gael o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol i godi tâl am gyngor cyn ymgeisio.

Ffi Ymgeisio

Bydd yr SAB yn codi £350 am bob cais, plws (hyd at uchafswm o £7,500):

- am bob 0.1 hectar (ha) ychwanegol hyd at 0.5 ha - £70
- am bob 0.1 ha ychwanegol rhwng 0.5 ha ac 1 ha - £50
- am bob 0.1 ha ychwanegol rhwng 1 ha a 5 ha - £20
- am bob 0.1 ha ychwanegol dros 5 ha - £10

Mae'r ffioedd yn gymesur â maint yr ardal adeiladu.

Bydd yn rhaid i'r datblygwr gyflwyno'r ffi gywir gyda'r cais.

Ffioedd ymgeisio gostyngol

Bydd yr SAB yn codi ffioedd ymgeisio gostyngol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Lle bo un cais yn cynnwys dau gais neu fwy neu gynigion amgen. Gall yr SAB godi ffi ymgeisio am y cynnig a fyddai'n denu'r ffi uchaf, plws hanner swm y ffi sy'n daladwy am bob un o'r ceisiadau ac/neu gynigion amgen sy'n weddill.
- Lle bo'r ymgeisydd yn gyngor cymuned neu dref. Gall yr SAB godi ffi sydd gyfwerth â hanner y ffi ymgeisio.

Ceisiadau addasedig

Ni chaiff yr SAB godi ffi yn gysylltiedig ag addasu cais, os bydd cais am gymeradwyaeth yn cael ei addasu drwy gytundeb rhwng yr SAB a'r datblygwr, cyn i'r SAB ddod i benderfyniad yn ei gylich.

Ffioedd am geisiadau a ailgyflwynir

Caiff yr SAB godi ffi sy'n seiliedig ar hanner y ffi ymgeisio a godwyd am gais a gymeradwywyd yn flaenorol, os rhoddwyd cymeradwyaeth gan yr SAB yn y 12 mis blaenorol, a lle bo'r cais dilynol yn ymwneud yn llwyr neu'n bennaf â'r cynllun SuDS a gymeradwywyd yn flaenorol (gan gynnwys cynigion adeiladu ac amodau'n gysylltiedig â'r cais blaenorol).

Ni chaiff yr SAB godi ffi yn gysylltiedig â chais dilynol am gymeradwyaeth os nad yw'r cais ond yn ymwneud ag amod yn gysylltiedig â'r gymeradwyaeth honno. Onid yw'r amod yn gysylltiedig ag adeiladu'r cynllun SuDS, a bod yr amod hwnnw wedi'i osod o dan y cais a gymeradwywyd yn flaenorol.

Ffi arolygu

Pan fo'r SAB yn cymeradwyo cais ar yr amod bod arolygiad(au) yn cael ei/eu cynnal o'r cynllun SuDS, gall godi ffi arolygu o £168 am bob arolygiad.

6.9 Beth fydd yr SAB yn ei wneud ar ôl derbyn cais dilys?

Ar ôl i gais ddod i law, dylai'r SAB ei ddilysu. Er mwyn gwirio ei fod yn bodloni gofynion penodol (a bennwyd gan yr SAB) ynghylch y ffurflen i'w defnyddio ar gyfer y cais, ac ynghylch unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn i'r ymgeisydd ei chyflwyno gyda'r cais am gymeradwyaeth.

Os yw popeth yn gywir, a bod y cais wedi'i gyflwyno'n ddilys, bydd gan yr SAB 7 wythnos i wneud penderfyniad ynghylch y cais, neu 12 wythnos os bu'r cais yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol o dan deddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref

Er mwyn dod i benderfyniad ynghylch y cais bydd yr SAB yn gwerthuso'r cynigion yn erbyn y **gofynion perthnasol** ar gyfer SuDS gorfodol. Mae'r rhain yn cynnwys y Safonau SuDS Statudol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw draeniau, ynghyd â deddfwriaeth bresennol ar raddfa'r genedlaethol ac ar raddfa'r UE, ac unrhyw bolisiau a fabwysiedir yn lleol gan yr ACLI a'r ALILIA.

Mae'n rhaid i'r SAB hefyd ymgynghori ag ymgynghoreion statudol perthnasol, a gall bennu bond diffyg perfformiad ac amodau yn gysylltiedig â chymeradwyaeth yr SAB.

Ceir siart lif sy'n nodi holl gamau'r broses ymgeisio yn Atodiad 1 y Cwestiynau Cyffredin hyn

6.10 Beth fydd yn digwydd os na fydd y cais SuDS yn ddilys?

Ar ôl i gais ddod i law, dylai'r SAB ei ddilysu. Er mwyn gwirio ei fod yn bodloni gofynion penodol (a bennwyd gan yr SAB) ynghylch y ffurflen i'w defnyddio ar gyfer y cais, ac ynghylch unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn i'r ymgeisydd ei chyflwyno gyda'r cais am gymeradwyaeth.

Os yw'r cais yn cynnwys mân ddiffygion, efallai y byddai'r SAB yn dymuno cysylltu â'r datblygwr i'w hysbysu am y deunydd coll a chytuno ar derfyn amser pan fydd yn rhaid iddo fod wedi cyflwyno'r deunydd hwnnw.

Os yw'r cais yn cynnwys diffygion mwy sylweddol, efallai y bydd yr SAB yn dymuno cysylltu â'r datblygwr i'w gynghori ynghylch y camau y mae angen iddo eu cymryd i unioni'r diffygion. Wrth wneud hynny, efallai y bydd yr SAB yn dymuno negodi estyniad â'r datblygwr ar gyfer penderfynu ynghylch y cais, y bydd angen ei gadarnhau mewn ysgrifen. (Nid yw unrhyw estyniad i'r amser a gytunir ar gyfer penderfynu ynghylch cais SAB yn ymestyn y ffrâm amser ar gyfer penderfynu ynghylch unrhyw gais cynllunio.

Os bydd diffygion sylweddol yn gysylltiedig â'r cais neu os **nad yw'r datblygwr wedi cyflwyno'r wybodaeth a geisiwyd gan yr SAB**, caiff yr SAB ddewis gwrthod y cais. Wrth wneud hynny, bydd yn rhaid i'r SAB roi gwybod i'r datblygwr am ei benderfyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, a dychwelyd y ffi ymgeisio.

6.11 Pa ymgynghoriadau statudol ac anstatudol y gallai'r SAB eu cynnal?

(Gweler y cwestiynau cyffredino ar bob un o'r materion penodol hyn sydd hefyd wedi'u rhestru yn y ddogfen hon).

6.12 Pa amodau y gallai'r SAB eu gosod yn gysylltiedig â chymeradwyaeth?

Yn syml, bydd yn rhaid i'r datblygwr gadw at amodau a osodir yn gysylltiedig â'r gymeradwyaeth SuDS, neu gall yr SAB gymryd camau gorfodi. Bydd yr amodau hyn yn tueddu i ddiffannu wrth fabwysiadu, ac ni fydd angen eu gweithredu, fel sy'n wir achos amodau cynllunio.

Nid yw amodau cymeradwyo yn orfodol, ond maent yn galluogi'r SAB a'r datblygwr i sicrhau bod holl gydrannau'r cais draenio yn cael eu hadeiladu'n briodol.

Dylai'r holl amodau gyd-fynd â graddfa a natur y gwaith a bod:

- yn angenrheidiol,
- yn berthnasol i broses gymeradwyo a mabwysiadu'r SAB,
- yn berthnasol i'r datblygiad y bwriedir ei gymeradwyo,
- yn orfodadwy,
- yn fanwl gywir, ac
- yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

Ni ddylai amodau ddyblygu gofynion deddfwriaeth arall.

6.13 Pa fond diffyg perfformiad a allai fod yn ofynnol gan yr SAB?

Caiff yr SAB ofyn am fond ar gyfer diffyg perfformiad. Bydd gofynion y bond wedi'u nodi fel amod yn gysylltiedig â chymeradwyaeth, lle na all gwerth y bond fod yn uwch na'r amcangyfrif o gostau adeiladu'r gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni'r cais cymeradwy.

Disgwylir y bydd trafodaethau manwl yn cael eu cynnal rhwng yr SAB a'r datblygwr i asesu gwerth y bond, cyn pennu gwerth y bond a'r dull o'i ryddhau fel amod yn gysylltiedig â'r gymeradwyaeth. Os oes canllawiau safon y diwydiant ar gael, dylid eu defnyddio i gyfrifo costau.

Bydd y bond yn daladwy i'r SAB os yw'n ardystio bod y system ddraenio:

- wedi cael ei hadeiladu mewn modd sy'n anghyson â'r cais cymeradwy; neu
- yn annhebygol o gael ei chwblhau.

Os na fydd y bond wedi'i dynnu i lawr a bod yr SAB yn fodlon bod y system ddraenio wedi'i hadeiladu ac yn gweithredu'n unol â'r cais cymeradwy, bydd yn rhaid i'r SAB ryddhau'r bond:

- cyn pen 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl i'r SAB roi rhybudd o'i benderfyniad i fabwysiadu, neu
- cyn pen 4 wythnos ar ôl ei benderfyniad mewn ymateb i gais i fabwysiadu.

6.14 A fydd y safle datblygu yn cael ei archwilio cyn cael ei gymeradwy gan yr SAB?

Gall yr SAB ofyn am arolygiadau, ac os nodir arolygiad fel amod yn gysylltiedig â chymeradwyaeth caiff godi ffi benodol am bob arolygiad. Efallai y bydd yr SAB yn dymuno cynnal arolygiad cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu er mwyn sicrhau bod y SuDS wedi'i hadeiladu'n unol â'r hyn a gymeradwywyd. Efallai y bydd hefyd yn dymuno cynnal arolygiad ar ôl adeiladu a chyn mabwysiadu, er mwyn sicrhau bod y SuDS yn gweithredu'n unol â'r hyn a gymeradwywyd.

6.15 Pa gytundebau y gallai fod ar yr SAB eu hangen i gefnogi mabwysiadu?

Wrth gyflwyno cais, dylai'r SAB a'r datblygwr hefyd drafod cytundeb cyfreithiol fel dull ffurfiol o gofnodi unrhyw drefniadau manwl ynghylch y canlynol; cynnal a chadw'r system ddraenio gynaliadwy hyd ddiwedd oes y datblygiad, y dull o ariannu'r cynllun SuDS hyd ddiwedd oes y dyluniad (gan gynnwys unrhyw swm gohiriedig neu gyllid cynnal a chadw).

O ran sicrhau cytundebau i wneud yn siŵr bod y SuDS yn parhau i gydymffurfio hyd ddiwedd oes dylunio'r datblygiad, efallai y bydd yr SAB yn dymuno dibynnu ar bwerau sydd ar gael eisoes i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol.

Efallai y bydd angen i gytundebau cyfreithiol hefyd drafod:

- trosglwyddo tir,
- hawddfrentiau,
- mynediad.

6.16 Pa benderfyniad y gall yr SAB ei roi, a beth ddylai'r datblygwr ei wneud?

Dylai'r SAB hysbysu'r datblygwr, yr ACLI a'r ymgynghoreion statudol am yr hyn a benderfynwyd ynghylch ceisiadau annibynnol a cheisiadau cyfun.

Os caiff ei gymeradwyo, dylai'r datblygwr:

- Adolygu amodau'r gymeradwyaeth, a thrafod sut i ymdrin â'r rhain gyda'r SAB os oes angen.

- Sefydlu cytundeb bond ar gyfer diffyg perfformiad, os oes angen.

Os caiff ei wrthod, dylai'r datblygwr:

- Archwilio'r rhesymau dros wrthod y cais, a'u trafod â'r SAB.
- Ailymgeisio am gymeradwyaeth yr SAB os yw'n briodol.

Os gwrthodir y cais hwnnw, caiff y datblygwr apelio yn erbyn penderfyniad yr SAB.

6.17 Beth fydd yn digwydd i gais cynllunio os bydd yr SAB yn gwrthod rhoi cymeradwyaeth?

Os bydd yr SAB yn gwrthod cais draenio, gallai'r awdurdod cynllunio roi caniatâd cynllunio er hynny a hysbysu'r ymgeisydd ynghylch ei benderfyniad ei hun o fewn y ffrâm amser a neilltuwyd ar gyfer cynllunio. Fodd bynnag, heb gymeradwyaeth yr SAB, ni fyddai modd dechrau'r gwaith adeiladu, ac ni fyddai modd cysylltu â'r garthffos, os cynigiwyd hynny.

Dylai'r awdurdod cynllunio felly barhau i hysbysu'r ymgeisydd am ie benderfyniad ei hun ynghylch y cais cynllunio, gan fodloni drwy hynny ei ddyddiad terfyn ei hun ar gyfer ymateb. Byddai unrhyw apêl yn deillio o ddiffyg penderfyniad ynghylch y cais SuDS yn cael ei chyflwyno yn erbyn yr SAB yn hytrach na'r awdurdod cynllunio.

Adran 7: Proses mabwysiadu'r SuDS

7.1 Beth yw'r broses fabwysiadu ar gyfer yr SAB?

Ar ôl bodloni telerau'r gymeradwyaeth ac unrhyw amodau a osodir gan yr SAB yn gysylltiedig â'r gymeradwyaeth, gan gynnwys unrhyw gyfnod gofynnol er mwyn sefydlu llystyfiant, gall yr SAB fabwysiadu systemau draenio.

- Ar ei gymhelliant ei hun, neu
- ar gais y datblygwr (ar unrhyw ffurf sy'n ofynnol gan yr SAB).

Os oes dyletswydd ar yr SAB i fabwysiadu, ac os yw'r amodau wedi'u bodloni, dylai geisio mabwysiadu'r SuDS ar ei gymhelliant ei hun gan amlaf.

Wrth fabwysiadu'n wirfoddol, neu os ceir anghydfod ynghylch a fodlonwyd yr amodau ar gyfer mabwysiadu, gellir gofyn i'r SAB fabwysiadu system ddraenio.

7.2 Pa SuDS nad ydynt yn cael eu mabwysiadu gan yr SAB?

Nid yw'r SAB yn mabwysiadu SuDS sy'n gwasanaethu eiddo sengl na ffyrdd a gynhelir yn gyhoeddus.

Nid yw'r SAB yn mabwysiadu systemau draenio nad yw'n ofynnol sicrhau cymeradwyaeth yr SAB ar eu cyfer.

7.3 Beth yw effaith mabwysiadu?

Pan fo'r SAB yn mabwysiadu SuDS daw'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y system yn cael ei chynnal a'i chadw fel ei bod yn gweithredu'n unol â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS.

7.4 A ellir gwneud cais i fabwysiadu?

Ar ôl bodloni telerau'r gymeradwyaeth, gan gynnwys unrhyw gyfnod gofynnol er mwyn sefydlu llystyfiant, gall yr SAB naill ai benderfynu mabwysiadu'r system ddraenio ei hun neu ymateb i gais gan y datblygwr

Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau mabwysiadu ar y ffurf sy'n ofynnol gan yr SAB, ac mae'n rhaid i'r SAB benderfynu ynghylch y ceisiadau hynny cyn pen 8 wythnos.

7.5 Beth yw'r amserlen ar gyfer penderfyniad i fabwysiadu?

Pan fo'r SAB yn mabwysiadu ar ei gymhelliant ei hun, bydd yn rhaid iddo roi gwybod i'r datblygwr am ei benderfyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Bydd yn rhaid i'r SAB ddod i benderfyniad ynghylch ceisiadau mabwysiadu cyn pen 8 wythnos ar ôl derbyn y cais, oni fydd yr SAB a'r datblygwr yn cytuno ar gyfnod hwy o amser.

7.6 Beth fydd yn digwydd os na fydd yr SAB yn bodloni'r amserlen ar gyfer penderfyniad i fabwysiadu?

Os na fydd yr SAB yn dod i benderfyniad ynghylch y cais o fewn y cyfnod dan sylw, ystyrir ei fod yn gwrthod mabwysiadu, onid yw'r SAB a'r datblygwr wedi cytuno ymlaen llaw i ymestyn y cyfnod hwnnw.

Os na fydd yr SAB yn bodloni'r raddfa amser ar gyfer penderfynu ynghylch cais i fabwysiadu, bydd rhwymedigaeth arno o hyd i ddod i benderfyniad ac i hysbysu'r ymgeisydd ynghylch y penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, os bydd yr ymgeisydd yn dymuno, tybir bod y cais wedi'i wrthod gan yr SAB i ddibenion apêl, a bydd rhyddid i'r ymgeisydd gyflwyno apêl.

7.7 Sut y bydd yr SAB yn mynd ati i benderfynu mabwysiadu, a beth fydd yn digwydd?

Er mwyn penderfynu a ddylai fabwysiadu ar ei gymhelliant ei hun neu mewn ymateb i gais, gall yr SAB gynnal unrhyw arolygiadau a nodir yn yr amodau sy'n gysylltiedig â'r gymeradwyaeth.

Bydd yn rhaid defnyddio'r ffurflen sy'n ofynnol gan yr SAB i gyflwyno unrhyw gais mabwysiadu, a bydd yr SAB yn dod i benderfyniad ynghylch y cais o fewn 8 wythnos, gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl derbyn y cais (onid yw'r SAB a'r datblygwr wedi cytuno ar gyfnod estynedig).

Os bydd yr SAB yn mabwysiadu ar ei gymhelliant ei hun neu mewn ymateb i gais, bydd yn rhaid iddo hysbysu'r datblygwr cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl dod i benderfyniad ynghylch mabwysiadu.

Yn yr hysbysiad bydd yn rhaid nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a dyddiad y penderfyniad. Dylid nodi hefyd beth yw maint y system ddraenio sy'n cael ei mabwysiadu.

Bydd yr SAB yn anfon copi o'r hysbysiad hwn at:

- yr ymgwymerwr carthffosiaeth,
- unrhyw un sy'n ymddangos fel pe bai'n meddiannu neu'n berchen ar y tir lle ceir y system ddraenio (gan gynnwys manylion unrhyw drefniadau o dan y cais cymeradwy ar gyfer mynediad a chynnal a chadw,
- unrhyw un arall yr oedd yn rhaid i'r corff cymeradwyo ymgynghori â hwy ar y cais am gymeradwyaeth,
- unrhyw un sy'n ymddangos fel pe bai'n meddiannu neu'n berchen dir y bydd y system yn draenio dŵr ohono.

Os nad yw'r SuDS wedi cael eu hadeiladu'n unol â'r cais cymeradwy, ni chychwynnir y ddyletswydd i fabwysiadu. Caiff yr SAB gymryd camau gorfodi a defnyddio'r bond diffyg perfformiad.

Os bydd system ddraenio wedi cael ei chymeradwyo i'w mabwysiadu a bond wedi cael ei sefydlu ar gyfer diffyg perfformiad, bydd unrhyw gyfran o'r bond sydd heb ei defnyddio yn cael ei rhyddhau cyn pen 4 wythnos ar ôl anfon yr hysbysiad.

7.8 Pa amodau mabwysiadu y mae'n rhaid eu bodloni?

Bydd yr SAB yn mabwysiadu systemau draenio sy'n bodloni amodau penodol, sef:

- bod y system ddraenio wedi'i hadeiladu ac yn gweithredu'n unol â'r cais cymeradwy, gan gynnwys unrhyw amodau yn gysylltiedig â chymeradwyaeth, a
- bod y system ddraenio yn "system ddraenio gynaliadwy", sy'n golygu'r rhannau hynny o system ddraenio nad yw'r cyfrifoldeb amdanynt wedi'i roi i ymgwymerwr carthffosiaeth o dan gytundeb adran 104 Deddf Diwydiant Dŵr 1991.

7.9 A all yr SAB fabwysiadu SuDS yn wirfoddol?

Gall yr SAB fabwysiadu SuDS yn wirfoddol lle nad oes dyletswydd statudol arno i wneud hynny. Mae hyn yn golygu y byddai'r SAB hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r SuDS a fabwysiedir. Byddai angen cytuno ar wahân ar unrhyw gyllid i ariannu'r gwaith cynnal a chadw.

Bydd yn rhaid i'r SAB hysbysu unrhyw ymgwymerwr carthffosiaeth neu unigolyn y mae ei benderfyniad i fabwysiadu yn effeithio arnynt ynghylch ei benderfyniad i fabwysiadu. Mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad ac arno'r rheswm dros fabwysiadu a'r dyddiad mabwysiadu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl dod i benderfyniad ynghylch mabwysiadu

7.10 Pa gofrestrau y mae angen i'r SAB eu cadw ar gyfer asedau SuDS a fabwysiedir?

Cyn pen 4 wythnos ar ôl rhoi rhybudd o'i benderfyniad i fabwysiadu, bydd yr SAB yn trefnu:

- I'r ALILIA gynnwys y system ddraenio (p'un a yw wedi'i mabwysiadu a'i peidio) ar y gofrestr strwythurau neu nodweddion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar berygl llifogydd mewn ardal
- Dynodiad dros dro ar gyfer y rhannau hynny o'r systemau draenio nad ydynt yn eiddo i'r SAB, ac sy'n gymwys i'w dynodi gyda'r awdurdod dynodi

- Dynodi unrhyw ran fabwysiedig o'r system ddraenio sydd yn stryd o dan adran 63 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (strydoedd ag anawsterau arbennig o ran peirianeg), yn unol ag ystyr adran 48 o'r Ddeddf honno,

7.11 Pwy sy'n atebol am sicrhau bod y SuDS a fabwysiedir yn cael eu cynnal?

Lle bo'r SAB wedi mabwysiadu system ddraenio, daw'n gyfrifol am gynnal a chadw'r system honno. Mae'n rhaid i'r SAB gydymffurfio â'r Safonau Statudol ar gyfer SuDS wrth gynnal a chadw'r system. Dylid bod wedi cyflwyno cynllun cynnal a chadw a dull o ariannu'r cynllun hyd ddiwedd ei oes dylunio i'r SAB wrth gymeradwyo.

Un o'r rhesymau dros leoli'r swyddogaethau dros gymeradwyo a mabwysiadu'r SuDS gydag awdurdodau lleol yw bod awdurdodau lleol yn gyfrifol ac yn atebol yn ddemocrataidd. Mae hyn yn arbennig o wir os bydd cyflwr y SuDS yn dirywio, yn methu ac yn achosi llifogydd lleol. Fel ALILIA mae ganddynt hefyd gyfrifoldebau ehangach dros reoli dŵr wyneb yn effeithiol.

Gall ymgymerwyr carthffosiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd nodi ardaloedd lle nad yw gwaith cynnal a chadw ar SuDS yn cael ei gyflawni, lle bo hynny'n cael sgil-ffaith ar garthffosydd neu gyrsiau dŵr.

Pe bai'r SAB yn methu cyflawni ei swyddogaethau statudol yn gysylltiedig â SuDS, byddai'r awdurdod lleol yn destun adolygiad barnwrol yn yr un modd ag y byddai'n destun adolygiad o'r fath o fethu â chyflawni swyddogaethau statudol eraill.

7.12 Sut y caiff gwaith i gynnal SuDS a fabwysiedir ei ariannu?

Bydd mabwysiadu dull hyblyg ac agored o ariannu gwaith cynnal a chadw SuDS yn galluogi'r SAB, datblygwyr a chymunedau i ganfod y datrysiad gorau i ariannu gwaith cynnal a chadw hirdymor ar bob safle.

Dylid bod wedi cynnig cynllun cynnal a chadw a dull o ariannu'r cynllun hyd ddiwedd ei oes dylunio yn y cais, a chytuno â'r SAB ar hynny yn rhan o'r gymeradwyaeth.

Er mwyn sefydlu trefniadau, mae'n bosibl y bydd yr SAB yn dymuno dibynnu ar bwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol.

Ceir llawer o opsiynau posibl er mwyn trefnu gwaith cynnal a chadw hirdymor yn llwyddiannus, a chael ffrwd barhaus a chynaliadwy o incwm i gefnogi hynny.

Mae astudiaethau achos sydd ar gael ar [wefan Susdrain CIRIA](#) yn rhoi sawl enghraifft o fanylion prosiect SuDS, gan gynnwys gwybodaeth am gynnal a chadw a gweithredu prosiectau.

Fel enghraifft gyflym, gallai'r trefniadau gynnwys:

- Defnyddio symiau gohiriedig er mwyn sicrhau bod gan yr SAB adnoddau i dalu am gynnal yr asedau y mae wedi'u mabwysiadu a gosod rhai newydd yn eu lle os oes angen. Er cysondeb, argymhellir defnyddio Commuted Sums for Maintaining Infrastructure Assets gan Gymdeithas y Syrfëwyr Sirol er mwyn cyfrifo symiau gohiriedig ar gyfer pob ased draenio.
- Cwmnïau rheoli gwasanaethau
- Trosglwyddo'r SuDS i'w rheoli a'u cynnal gan awdurdodau lleol, ar ôl talu swm gohiriedig ac/neu dalu tâl cynnal.

Atodiad 1 - Proses ymgeisio SuDS (diagram)

